PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 448 | Ebrill 2022

## Hwb Cymunedol y Borth




t.11

## Diwrnod yn y Senedd



t.8

## Teyrnged i Lyn



t.9

# Actores brysur

Llongyfarchiadau i Miriam Llwyd sydd wedi ennill lle gyda'r British Youth Music Theatre. Bydd yn ymarfer gyda'r cwmni yn ystod y gwyliau haf ac yn perfformio sioe o'r enw 'Why the whales came' yn y Brewhouse Theatre, Taunton ac yn y Mack Theatre, Llundain ar ddiwedd mis Awst. Dymuniadau gorau iddi.





## O'r ysgolion

t24-27



# Priodas hapus!



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Meleri Rees-Griffiths a John Bailey, Ger-y-cwm, Penrhyn-coch a briodwyd yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth ar 9 Ebrill.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

# dyddiadur

**RHIFYN MAI – Dyddiad cau:** Mai 6. **Dyddiad cyhoeddi:** Mai 18

**EBRILL 15** Bore Gwener y Groglith eglwysi'r dref – oedfa Gymraeg yng Nghapel y Morfa am 10.00.

**EBRILL 16** Dydd Sadwrn Llan Llanast y Pasg yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch o 10.00-12.00 Croeso i blant a theuluoedd ymuno ar gyfer crefft, stori a dathlu. Paned, byns y Grog a helfa wyau i orffen.

**EBRILL 17** Nos Sul Sorela yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth o 7.30 ymlaen. Ambell docyn ar ôl.

**EBRILL 18 – 19** Dyddiau Llun – Mawrth Llanw: dathlu'r Atgyfodiad yn Neuadd Medrus, Prifysgol Aberystwyth o 18.30 ymlaen.

**EBRILL 25** Dydd Llun Ysgolion Ceredigion yn agor ar ôl gwyliau'r Pasg.

**EBRILL 29 – MAI 1** Nos Wener – Dydd Sul Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid.

**MAI 3** Nos Fawrth Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2022 The Word of the Lord? – Making the Bible Make Sense; darlith gan Y Gwir Barchedig Jeffrey John, caplan cysylltiedig Eglwys St George's, Paris ym Morlan am 18.00.

**MAI 5** Dydd Iau Etholiadau Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Tref a Chymuned; Gorsafoedd pleidleisio ar agor o 7.00 y bore i 10.00 yr hwyr.

**MAI 7** Nos Sadwrn Al Lewis yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth.

**MAI 12** Nos Iau Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth ym Morlan.

**MAI 14** Dydd Sadwrn. Ffair Calan Mai a pnawn agored yn Neuadd Rhydypennau am 12 o'r gloch. Cyfle i weld holl welliannau ac adnoddau newydd y Neuadd. BBQ, stondinau, adloniant, paned a chyfle am glonc.

**MEHEFIN 11** Dydd Sadwrn Parti yn y Parc PATRASA.

**MEHEFIN 11** Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion
Ceisiadau da byw yn cau: 23 Mai
Ceisiadau'r babell yn cau: 4 Mehefin
yn cael ei dilyn am 19.00 gan Dawns / GIG i ddathlu'r 75 mlynedd yng nghwmni Dafydd Iwan a Welsh Whisperer am 19.00
www.sioeaberystwythshow.co.uk

**MEHEFIN 15** Nos Fercher cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn.

**MEHEFIN 18** Dydd Sadwrn Taith Cymdeithas y Penrhyn.

Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## Diolch

Dymuna Lisa Davies a'r teulu, Llety Ifan Hen, Bont-goch, ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a'r cyfraniadau hael a dderbyniwyd er cof am Emyr. Derbyniwyd y swm anrhydeddus o £2,225.

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**£600** Cyngor Cymuned Tirymynach

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

CYMRAEG

## 30 mlynedd yn ôl



**Carfan rygbi Ysgol Rhydypennau. Llun: Hugh Jones (O Dincer Ebrill 1992)**

**Rhes gefn: Garmon Ceiro, Matthew Mathias, Richard Lucas, David Jones, Adam Foale, Dafydd Erwan Davies, Martin Pugh**
**Rhes flaen: Clint Middleton, Rheinallt Lewis, Mark Morris, Karl Manning, Llŷr Richards. Diolch i ymchwilwyr Maes Ceiro am yr enwau.**

### RHAGLEN CYMDEITHAS FLODAU ABERYSTWYTH A'R CYLCH

**Cyfarfod Neuadd Llanfarian 7.30.**

Ebrill 19 – Gweithdy gyda Christine Gilbert
Mai 17 – Arddangosfa trefnu blodau gyda Sioned Hughes
Mehefin 21 – Arddangosfa Trefnu Blodau Gyda Daphne Furneaux
Gorffennaf 19 – Ymweliad â Gardd "Flower Meadow", Rhydlewis

### GWASANAETHAU BRO PADARN

*Ebrill*

10 Sul y Blodau 11yb Penrhyn-coch Boreol Weddi
15 Dydd Gwener y Groglith 2yp Penrhyn-coch Ar draed y Groes
17 Dydd y Pasg (Pasg 1) 10.30yb Capel Bangor Cymun & 11yb Penrhyn-coch Cymun & 2.30yp Elerch Cymun
24 Ail Sul y Pasg – Dim gwasanaethau

*Mai*

01 Trydydd Sul y Pasg / Saint Phlip ac Iago 10.30yb Capel Bangor Boreol Weddi & 2.30yp Elerch Cymun
08 Pedwerydd Sul y Pasg 11yb Penrhyn-coch Boreol Weddi
15 Pumed Sul y Pasg 10.30yb Capel Bangor Cymun
22 Chweched Sul y Pasg (Sul y Gweddïau) 11yb Penrhyn-coch Cymun

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mawrth 2022

**£25** (Rhif 125) T.John Griffiths, Fronwen, Penegoes
**£15** (Rhif 259) Elizabeth Jones, 25 Maes Ceiro, Bow Street
**£10** (Rhif 251) Iestyn Hughes, 14 Maes-y-Garn, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ymaelodi am y flwyddyn 2022

### MARCHNAD BAE CLARACH

Bydd Marchnad Bae Clarach a'r Arwerthiant cist car yn ailddechrau ar Sul y Pasg – y giatiau yn agor am 7 y bore. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r rheolwr 07768012268

## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

(Os hoffech fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod yna cysylltwch â'r Clerc ar maesceiro@gmail.com )

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth tan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Robert Pugh yn Neuadd Rhydypennau nos Iau 31 Mawrth 2022 pryd y derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror fel rhai cywir.

Materion a drafodwyd: Ffens Cae Chwarae Bryncastell: Nodwyd bod y ffens wedi ei thrwsio a bod y cae wedi cael ei ail-agor.

Hysbysfwrdd Cymunedol: Cadarnhawyd bod Cwmni Greenbarnes yn amcanu at gael yr hysbysfwrdd yn barod erbyn diwedd mis Mai.

Adroddiad Misol y Cynghorydd Sir: Gyda'r etholiadau lleol ar y gorwel nid oedd yn bosibl i'r Cynghorydd Hinge fod yn bresennol ond yr oedd wedi anfon neges yn diolch i bawb am bob cymorth a chydweithrediad ar hyd y blynyddoedd.
Gwefan y Cyngor: Eglurodd y Clerc ei fod yn dal i gael trafferthion wrth geisio cael mynediad i'r wefan.

Swydd y Clerc: Adroddwyd bod yna ddau ymateb wedi dod i law i'r hysbyseb yn y Cambrian News ac awdurdodwyd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i gyfarfod yr ymgeiswyr gyda golwg ar ddod ag argymhelliad yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Cae Chwarae Tregerddan: Wrth sôn am Gae Chwarae Tregerddan nodwyd y bydd angen rhoi sylw i gyflwr yr offer sydd yno yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd.

Etholiadau Lleol Mis Mai: Atgoffodd y Clerc bawb mai Ebrill y 5ed fydd y dyddiad olaf ar gyfer derbyn enwebiadau ar gyfer yr etholiadau a bod yna 8 sedd ar gael yn Nhirymynach a 4 yn Llangorwen.

Cyfarfod nesaf: Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor nos Iau 28 Ebrill 2022 yn Neuadd Rhydypennau am 7.30.
Cofnodion llawn ar gael ar wefan y Cyngor: www.cctirymynach.cymru

**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com

**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**



SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod




STORFA CANOLBARTH CYMRU
MID WALES STORAGE
**Storfa Cartref a Busnes**
Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogi
Bocses a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk
Wales REMOVALS
Ffôn: 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk


# DIFYRION DIGIDOL

**Deian ap Rhisiart**

Cyn y pandemig, buom fel Cymunedau Digidol Cymru yn ymweld â llawer o gartrefi gofal ar hyd a lled y Gogledd yn cynnal sesiynau hel atgofion gan ddangos buddiannau technoleg. Y bwriad oedd defnyddio'r adnoddau digidol sy'n bodoli er mwyn diddanu preswylwyr mewn cartrefi gofal trwy fideo, cerddoriaeth a realiti rhithiol. Er mai â chartrefi gofal yr oeddem yn ymweld, mae llawer o'r adnoddau yn berthnasol ac o ddiddordeb i ni i gyd. Un o brif amcanion ein rhaglen Cymunedau Digidol Cymru yw defnyddio technoleg i hybu iechyd a llesiant ac mi roedd cynnal y sesiynau hyn yn bleser pur wrth weld ymateb llawer o'r preswylwyr. Yn aml na pheidio, gwelwyd ymateb cadarnhaol iawn gan bobl yn byw gyda dementia yn enwedig.

O fewn sesiwn arferol, fe ddangoswyd ffilmiau ar sgrin o archif y Sefydliad Ffilm Prydeinig, dyma archif anferth o bob rhan o Gymru. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi gweithio gyda'r BFI i ddarparu arlwy perthnasol o ffilmiau o Gymru. Y bwriad gyda hyn yw ysgogi pobl i hel atgofion am eu hardal leol, gyda llond gwlad o atgofion yn llifo o blith y preswylwyr. Mae'n werth chwilota yn y 'chwaraewr' am ddim er mwyn gwylio ffilmiau difyr o'r 1930au,40au, 1950au a'r 1960au. Un uchafbwynt sydd ar gael i'w wylio yw ffilm Yr Etifeddiaeth a gyfarwyddwyd gan y newyddiadurwr John Roberts Williams, gyda'r ffotograffydd enwog Geoff Charles yn golygu, a'r cyn archdderwydd Cynan yn lleisio'n wych. Mae yna hefyd ffilm ddifyr tu hwnt yn rhoi cipolwg ar symud gwartheg o Ynys Enlli i'r tir mawr! Yr oedd y ffilmiau i gyd wastad yn sbarduno preswylwyr i hel atgofion a llawer o atgofion annisgwyl iawn yn dod i'r fei. https://player.bfi.org.uk/free; https://player.bfi.org.uk/free/film/watch-yr-etifeddiaeththe-heritage-1949-online

O fewn sesiwn arferol, defnyddiwyd platfform ffrydio Spotify i gynnal disgo, gan greu rhestr chwarae priodol ar gyfer pobl yn byw gyda dementia. Yn amlwg, fe ddewiswyd clasuron bythol wyrdd i ysbrydoli'r preswylwyr, Yma o Hyd - Dafydd Iwan wrth gwrs, clasuron Meic Stevens, a sawl cân gan Edward H Dafis, heb sôn am emynau fel Calon Lân a Chwm Rhondda. Roedd hi'n amhosib peidio cynnwys clasuron o'r byd eingl-americanaidd chwaith o'r Beatles i Simon a Garfunkel. (https://www.spotify.com/uk/) Cofiwch fod posib creu eich rhestr chwarae eich hun ar Spotify.

Wrth iddynt fwynhau archif fideo ar y sgrin a moddion i'r glust a'r meddwl trwy gerddoriaeth, roedd y preswylwyr yn cael cyfle i brofi sbectolau realiti rhithiol prosiect arloesol Atgofion Melys. Y nod pan sefydlwyd Atgofion Melys gan Simon Jones oedd creu cynnwys lleol, Cymreig perthnasol ar gyfer pobl Cymru. Felly, aethpwyd ati i ffilmio llawer o leoliadau o Rhaeadr Ddu, Ganllwyd, Traeth Porthor, Pen Llŷn i dŷ o'r 1980au yn nhai teras Rhyd y Car, Amgueddfa Werin Cymru a Dafydd Iwan yn perfformio ym mhrotest Yes Cymru yng Nghaernarfon. Ac nid ffilmio cyffredin yw hyn ond ffilmio mewn $360^0$, hynny ydi mae'r camera yn ffilmio bob dim o'ch hamgylch! Wedyn ar ôl ei olygu a'i gynhyrchu, mae'r sbectolau VR yn rhoi'r profiad llawn i chi gan roi'r teimlad o fod mewn lleoliad go iawn! Ac I bobl sy'n methu symud o'r cartref gofal, roedd hyn yn brofiad amhrisiadwy, yn gwneud lles i'r meddwl, ac yn ddihangfa i le braf iawn am ychydig o funudau. Gellir darllen rhagor am Atgofion Melys trwy ymweld â'r wefan http://atgofion.co.uk/c/ a gellir profi ychydig ar y cynnwys VR ar y sianel (https://bit.ly/3DRvZv2)

Roedd yr sesiynau yn ennyn ymateb gwych, gyda'r gerddoriaeth yn dod a gwên fawr i wynebau sawl un. Yn aml, pan ddaethom drwy'r drws, roeddynt yn amheus ohonom, ond ar ôl awr yno, roedd pawb yn cael modd i fyw ac yn gofyn pryd fyddan ni'n dychwelyd!

Yn anffodus, bu'n rhaid dod a'r sesiynau i ben oherwydd y pandemig, ond byddwn yn gobeithio petai'r sesiynau yn gallu ailgychwyn yn y dyfodol pan fo'r amgylchiadau yn caniatau a'r haint wedi cilio.

Ond yn y cyfamser, gallwch ddefnyddio'r adnoddau y cyfeiriais atynt i ddifyru'ch hun mewn disgo cerdd trwy'r cenedlaethau, i danio atgofion am eich hardal leol ond hefyd i gael blas ar y cynnwys eang sydd gan Atgofion Melys.

Os ydych chi'n gweithio neu'n rhedeg cartref gofal neu'n awyddus i gynnal sesiwn tebyg, gallwn eich rhoi ar ben ffordd a'ch cefnogi i ddefnyddio'r adnodau hyn, cysylltwch gyda mi: deian.apRhisiart@wales.coop

# Etholiadau y Cyngor Sir

Cynhelir etholiadau Cyngor Sir Ceredigion dydd Iau 5 Mai; yr oriau pleidleisio yw 7.00 y bore hyd 10.00 y nos. Dyma yr enwau sydd yn sefyll yn nalgylch y Tincer.

**Y BORTH**
Hugh Richard Michael Hughes (Annibynnol/Independent)
Ray Quant (Independent)
Naomi Jane Salmon (Green Party/ Plaid Werdd)

**MELINDWR**
Rhodri Davies (Plaid Cymru- The Party of Wales)
Chris Simpson (The Green Party/ Plaid Werdd)

**TIRYMYNACH**
Paul Hinge (Welsh Liberal Democrats/ Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)
ETHOLWYD YN DDIWRTHWYNEBIAD)

**TREFEURIG**
Dai Mason (Independent)
Caryl Roberts (Plaid Cymru – The Party of Wales)

# CFfI Tal-y-Bont

Rydym wedi cael deufis prysur a diddorol iawn yn y Clwb yn sgîl llacio cyfyngiadau Cofid.

Ym mis Chwefror buon yn y Libanus yn y Borth. Buais i'n cystadlu fel Siaradwr i dîm cymysg gyda Chlwb Bro'r Dderi dan 16 oed ac fe ddaethon ni'n bedwerydd fel grŵp. I ddechrau mis Mawrth buon ni'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y cyntaf wrth greu Cawl yn Neuadd Tal-y-bont dan arweinyddiaeth dawnus Mair Nutting. Cafwyd noson llawn hwyl a sbri efo pawb yn coginio, chwarae gemau a mwynhau eu creadigaethau ar ddiwedd y noson. Diolch Mair!

Yr wythnos ganlynol buodd y clwb yn y Borth i ddiddori ar noson yn dysgu am y Bad Achub, cyn cael boliad o Sglodion i gloi. Roedd yn noson ddiddorol a bywiog tu hwnt. Diolch yn fawr i wylwyr y glannau y Borth! Ar y pymthegfed cafwyd noson gyda Rhodri, Owen a Bedwyr yn chwarae pêl droed 5 bob ochr. Am hwyl! Ar dydd Mawrth yr ail ar hugain buon ni'n lwcus i gael Iwan y milfeddyg i'n addysgu am bwysigrwydd ei waith. Diolch am ddod atom ynghanol tymor wyna prysur! Wythnos olaf y mis fe gawsom y pleser o gwmni Theatr Arad Goch yn rhoi perfformiad gafaelgar o 'Croesi'r Llinell'. Hoffem hefyd fel Clwb longyfarch tîm Siarad Cyhoeddus Saesneg Tal-y-bont am ennill ar lefel genedlaethol! Am gamp! Diolch i Rhian am eu hyfforddi unwaith eto.





# Cynghorau Cymuned

Ni fydd yr un etholiad Cyngor Cymuned yn y dalgylch; dyma'r enwebiadau ddaeth i law. Dim ond Cynghorau y Borth a Genau'r-glyn sydd â'r seddau i gyd wedi eu llenwi.

**Y BORTH (11 sedd)**
Carol Jacqueline King Bainbridge
Rona Dalton Independent
Margaret Griffiths
Andrea Janet Hughes Annibynol/Independent
Hugh Richard Michael Hughes Annibynol / Independent
Bryn Jones
Anthony Morris Annibynol/Independent
Delyth Pryce Jones Independent
Naomi Jane Salmon The Green Party/ Plaid Werdd
Amy Angharad Lloyd Thomas Independent
Helen Williams

**GENAU'R-GLYN (9)**
Gemma Katrina Bell Independent/ Annibynol
Susan Davies
Martin Griffiths
Carwen Hughes - Jones
Peter David James
Meirion Lewis
Rhodri Morgan
Bryn Smith
Philip Thomas

**MELINDWR GOGINAN (3)**
Mike Pilcher
Andy Wright

**MELINDWR LLANBADARN Y CREUDDYN UCHAF (2)**
Sarah Mair Gates Hughes
Jean Ann Watson

**MELINDWR PEN-LLWYN (5)**
Tom Holt
Llinos Eiri Jones
Jim Palmer

**TIRYMYNACH - LLANGORWEN (4)**
Dewi Evans

**TIRYMYNACH - TIRYMYNACH (8)**
Meinir Chambers
Edward Vernon Jones
Meinir Lowry
Elsbeth Morgan
Robert Allan Pugh

**TREFEURIG (11)**
Lowri Emlyn
Mel Evans
Delyth James Plaid Cymru
Shan James
Gwenan Price
Richard Owen Plaid Cymru
Eirian Reynolds

Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem

Gwefan Cymuned Trefeurig

trefeurig.cymru

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website
Trefeurig8
whhowells@gmail.com

Cwmerfyn Craig Usher

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth (723) 26/3/2022**



Gwerthiant tymhorol gwych gyda phob math yn gwerthu yn arbennig o dda. Prisiau fel a ganlyn:

Mamogiaid (471) amc £81.20, mwy £185 gan Bumford, Brynglas, Chancery.
Hyrddod (26) amc £114, mwy £166 gan Evans, Rhosfach, Trefenter.
Ŵyn gwanwyn £77 gan Lewis, Tyllwyd, Pennant.
Ŵyn blwydd (196) amc £65, mwy £128 gan Innovis, Capel Dewi, Aberystwyth.
Cyplau (26) amc £267, mwy £320 gan James, Penyberth Isaf, Penrhyn-coch.
Pleser oedd gwerthu heddiw eto gyda'r prisiau yn arbennig o dda.
Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Evelyn Morgan, Cefenfaenor, Capel Dewi, o golli cefnder – Dai Jones, Llanilar; ac â Sion Meredith a'r teulu, Maes Awel, Capel Dewi, ar golli mam Sion ym Mangor.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Sara Mitchell, Maes y Dderwen, Capel Dewi ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus a dymuniadau gorau i Arthur Hughes, Lluest Fach, Capel Madog fydd yn dathlu 80 oed ar y 29 o Ebrill. Mwynhewch y diwrnod!

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Rhys a Ceri Evans, Fferm Fronfraith, ar enedigaeth eu merch fach Anna Mair ar y 3ydd Ebrill. Wyres fach arall i Dai a Wendy Evans, Fronfraith, a gorwyres i Myfanwy Pugh, Fronddewi a Ken Evans, Coedgruffydd.

mudiad meithrin

bow-wow
dwmdwms
pi-po
mw-mw
beibeis

Cynllun Siarad Babi

Pa eiriau 'dych chi'n ddefnyddio wrth siarad babi? 'Dyn ni eisiau eu clywed i gyd!

Ry'n ni, ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, eisiau casglu'r eirfa ry'ch chi'n ei ddefnyddio (neu wedi eu defnyddio) gyda babanod eich teulu chi. Ry'n ni am gasglu'r geiriau er mwyn eu rhannu gyda siaradwyr Cymraeg newydd er mwyn eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y ffordd fwyaf naturiol posib gyda'u plant o'r cychwyn cyntaf un.

www.meithrin.cymru/siaradbabi

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

GWASANAETH GARDDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

ANIFEILIAID TEW

eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

SIOP SGLODION
BOW STREET CHIPPY
4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn
Mae modd archebu o flaen llaw dros y ffôn
01970 820567

# Serennu ar lwyfan



Llongyfarchiadau mawr i griw Theatr Ieuenctid Celfyddydau Aberystwyth ar berfformiad arbennig o 'Cable Street' - da iawn Alaw, Miri, Siôn a Glain! Bravo!

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Eurgain Ellis a 'r teulu yn Dolhaidd ar golli ei hewythr Dilwyn James, Tal-y-bont neu Dilwyn Henbant fel yr oedd pawb yn ei adnabod.

**Pen blwydd arbennig**
Dathlodd Paul Stephens, Blaenddol ben blwydd arbennig yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr.

**Artistiaid**
Mae dau o drigolion yr ardal yn arddangos eu gwaith yn Oriel Rhiannon yn Nhregaron ar hyn o bryd sef Maureen Alderslade, Tancnwch, a Mike Laxton, Hafod y Glyn. Daeth Maureen i fyw yma yn 2015, mae wedi dysgu ei hun i arlunio drwy ddilyn cyrsiau. Mae yn peintio gyda dyfrlliw ac olew yn bennaf a mae yn cael ysbrydoliaeth o liw a golau. Mae y tirwedd yng Nghwmrheidol yn ei ysbrydoli yn fawr.

Mae Mike Laxton yn byw yn Hafod y Glyn ers 2007 ac mae ef a Gill wrth eu bodd yn yr ardal. Mae'r amgylchedd lleol ac atyniad y mor yn gynsail i'w waith. Dymuniadau gorau i'r ddau.

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cyfarfu'r Cyngor wyneb yn wyneb yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor nos Iau Mawrth 17. Yn absenoldeb y cadeirydd Jim Palmer roedd yr is-gadeirydd Jean Watson yn y gadair. Croesawodd bawb i gyfarfod Mawrth. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth 4 o'r cynghorwyr.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Chwefror 2022 fel rhai cywir.

Rhoddodd y clerc adroddiad o'r sefyllfa ariannol. Cytunwyd i dalu aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn 2022/2023. Mae y Cynghorydd Tom Holt wedi mynychu dau sesiwn hyfforddiant ar lein gan Un Llais Cymru.

Cafwyd diweddariad ar y Parc Chwarae gan y Cynghorydd Sarah Hughes. Mae yr is-bwyllgor wedi cwrdd gyda arbenigwyr yn y maes ac wedi derbyn cyngor ar y ffordd ymlaen. Bydd holiadur yn cael ei drefnu er mwyn cael barn trigolion yr ardal.

Dathliad Jiwbili Platinwm y Frenhines-cafwyd cyfarfod yn Neuadd Capel Bangor ar nos Iau Mawrth 31 a phenderfynwyd cael dathliad. Bydd cyfarfod pellach diwedd mis Ebrill ac mae croeso i drigolion Melindwr i ymuno a rhoi syniadau ymlaen.

Diolchwyd i Rhodri Davies am ei waith yn y gymuned ac hefyd i'r cynghorwyr hynny sydd wedi bod yn casglu'r sbwriel o gwmpas yr ardal.

Gan nad yw y brif Neuadd ar gael ar y nos Iau, bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher Ebrill 20fed am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor.





Etholiadau Cyngor Sir Ceredigion

Trefeurig

"Byddaf yn lais cryf gydag egni newydd ar y Cyngor ac yn barod i sirhau bod y materion sy'n bwysig i chi yn cael eu trafod"

X ETHOLWCH

Hyrwyddwyd gan Gwenllian Mair, 2A Ger y Cwm, Penrhyncoch, SY23 3FA. ar ran Caryl Roberts, Bwlchydderwen, Pen-bont Rhydybeddau, Aberystwyth, SY23 3EZ.


**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

BRIDGE HOUSE CLEARANCE

Gardd neu Sied - Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim

f 07792457816/01974 261758

*Trefnwyr Angladdau*

*C T Evans*

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

Brongenau,
Llandre,
Aberystwyth
SY24 5BS

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

GWE Cambrian WEB

Gwefannau Gwych o Gymru

Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*

Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906

# Diwrnod yn Y Senedd








Ar Fawrth yr ail ar hugain, buais yn hynod ffodus i gael fy newis i fynychu'r Senedd yng Nghaerdydd fel rhan o ddigwyddiad 'LeadHerShip' gan yr elusen Chwarae Teg. Eu bwriad yw gwneud Cymru decach lle mae menywod yn cyflawni a ffynnu, a dyma gyfle i gynyddu diddordeb merched ifanc rhwng 16 a 22 i ymddiddori mewn gwleidyddiaeth. Wrth gyrraedd y Senedd am 9yb, cafodd 26 merch o bob cwr o Gymru ein croesawu gan Mark Drakeford ei hun, cyn i ni fynd at ein Aelodau Seneddol am y bore. Roedd yn gyfle gwych i gysgodi Aelod Seneddol a'u tîm, yn ogystal â chael panel cwestiwn ac ateb efo ASau yn hwyrach yn y dydd, ac yn dilyn hynny cael trafodaethau ar bwysigrwydd cydraddoldeb rhyw ymysg y criw o ferched a hefyd Sarah Murphy AS, noddwr y diwrnod. Bum yn ddigon ffodus i gysgodi Jane Dodds AS a'i thîm, lle dysgais lawer am y system wleidyddol yng Nghymru o'r tu mewn. Roedd yn brofiad cadarnhaol, addysgiadol ac ysbrydoledig yr wyf yn hollol ddiolchgar i fod wedi bod yn ran ohono. Yn dilyn y dydd, mae fy mrwdfrydedd at Wleidyddiaeth a'm dyfodol i yna wedi cynyddu'n sylweddol. Dwi'n edrych ymlaen yn arw i ddyfodol Gwleidyddiaeth yng Nghymru ble bydd cydraddoldeb yn norm, a bod ein Senedd yn adlewyrchu y boblogaeth maent yn cynrychioli.

**Elen Madrun Llewelyn Evans**

# Cronfa Eleri 2021

Rhwng 1998 a 2021 derbyniodd y gronfa geisiadau am gymorth o dros £622,000 gan 318 o ymgeiswyr. Rhoddwyd cymorth i dros 200 ohonynt, gan roi cyfanswm o dros £346,000 (cyfartaledd o tua £1,000 y cais). Y cais unigol mwyaf a dderbyniwyd mewn un flwyddyn oedd un am £15,000 a'r cymorth unigol uchaf a ddyfarnwyd mewn un blwyddyn oedd £7,500.

Mae natur y cynlluniau a gefnogwyd wedi bod yn amrywiol iawn. Cyfranwyd at adnewyddu adeiladau; prynu offer megis cadeiriau, llwyfannau ac offer ucheseinydd; offer chwaraeon a gwella adnoddau clybiau; adeiladu meysydd chwarae i blant; prynu offer i wasanaeth papur i'r deillion; datblygu cylchgronau ysgol a phapurau bro; a myrdd o gynlluniau eraill. Nid yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatàu cefnogaeth refeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd) i fudiadau a chymdeithasau - dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol.

Cyfanswm y gronfa ar gyfer 2021 oedd £20,428. Gweithgareddau a gefnogwyd: Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont; Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch; Maes Chwarae Rhydypennau; Sioe Tal-y-bont;

Neuadd Rhydypennau; ac Ysgolion Tal-y-bont, Craig-yr-Wylfa, Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn; Clwb ar ôl ysgol Tal-y-bont.

Bydd y gronfa ar agor i geisiadau ar gyfer y flwyddyn 2022 ddiwedd mis Tachwedd 2022. Manylion pellach o wefan Cronfa Eleri (cronfaeleri.cymru).

# Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion yn dychwelyd wedi dwy flynedd

Mae'r paratoadau yn eu hanterth ar gyfer Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion 2022 sy'n dathlu ei 75ain sioe ar ddydd Sadwrn yr 11eg o Fehefin 2022. Cafodd y Sioe, a gynhelir yn draddodiadol ar ail ddydd Sadwrn Mehefin ar gaeau Gelli Angharad, ei chanslo am ddwy flynedd yn olynol o ganlyniad i Covid ac mae'r trefnwyr wedi bod yn defnyddio'r amser i gynllunio atyniadau newydd ar gyfer Sioe 2022.

O Goginan y daw Emlyn Jones, Cadeirydd y Sioe, ac meddai, "Fel un o sioeau cyntaf y tymor yng Ngorllewin Cymru, a hithau'n ben-blwydd arbennig arnom ni, roedden ni eisiau cynllunio digwyddiad arbennig. Mae trefnu'r Sioe wedi bod yn heriol, yn bennaf oherwydd Covid a'i effaith hirdymor ar gyflenwyr, noddwyr ac arddangoswyr. Mae'r pwyllgor wedi bod yn gweithio'n galed, gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar geisio denu busnesau ac arddangoswyr yn ôl i'r Sioe. Ar ben hynny, mae mynediad am ddim i blant eleni."

Mae atyniadau fel Meirion Owen a'r Quack Pack, taflu bwyelli a cherddoriaeth fyw gan y Welsh Whisperer wedi'u trefnu, ynghyd â'r adran hen beiriannau fythol boblogaidd. Elfen sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf yw'r adloniant gyda'r hwyr a'r cneifio cyflym. Eleni, mae'n bleser gan y pwyllgor gyflwyno Dafydd Iwan a'r band fel y brif act.

Mae'r trefnwyr yn awyddus i bwysleisio bod yna weithgareddau a chystadlaethau ar gyfer pawb – nid o reidrwydd y rheini o gefndir ffermio yn unig. Mae ffotograffiaeth, celf ac adran benodol ar gyfer cystadlaethau plant i'w gweld yn y babell arddwriaeth, ynghyd â'r adrannau cynnyrch gardd traddodiadol a choginio. Ar draws maes y sioe, bydd arddangosiadau fel cneifio traddodiadol â llaw a sut i baratoi stoc ar gyfer y Sioe.

Adran arall sydd wedi dod yn fwy poblogaidd yw'r Campau Cŵn Campus. Yn ystod y cyfnodau clo, gwelwyd perchnogaeth cŵn yn cynyddu, ac mae nifer o gystadlaethau "rhowch gynnig arni", fel y cwrs galw cyflymaf a'r cwrs rhwystrau.

Mae ceisiadau cystadlu nawr ar agor ar gyfer y Sioe. Yn yr adrannau da byw mae £250 ar gael i bencampwr pob un o'r adrannau ceffylau, gwartheg godro a bîff, a defaid. Phillipa Hughes o Glinig Ceffylau Dyffryn Tywi, seren rhaglen ddogfen y BBC *Only Foals and Horses* fydd yn beirniadu'r pencampwr ceffylau a draw yn yr adran ddefaid, chwaraewr rygbi rhyngwladol Cymru - Wyn Jones a'i wraig fydd yn beirniadu'r bugeiliaid ifanc - yn dibynnu ar ddyletswydd ryngwladol wrth gwrs! Ceir rhagor o wybodaeth ar y wefan www.sioeaberystwythshow.co.uk. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru da byw yw 23 Mai 2022.

**Adran Ddefaid a Gwartheg Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion**

Diddordeb mewn amaeth neu gefn gwlad? Ydych chi am gyfrannu at ddigwyddiad poblogaidd yn nghalendr amaethyddol canolbarth Cymru?

Dewch yn rhan o bwyllgor Sioe byrlymus. Mae'r pwyllgor yn chwilio am unigolyn neu dîm o bobl fyddai'n awyddus i drefnu'r adrannau gwartheg a defaid i weithio law yn llaw ag aelodau presennol yr is-bwyllgor defaid a gwartheg. Eleni, mae cyfle i gysgodi'r ysgrifennydd presennol. Os am sgwrs anffurfiol, cysylltwch gydag aelod o'r pwyllgor. Mae'r manylion cyswllt ar wefan www.sioeaberystwythshow.co.uk




RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI

01970 867 888

# Y Borth

**Penodi Cydlynydd Creadigol**
Mae Cathy Piquemal wedi'i phenodi'n gydlynydd prosiect rhan-amser yng nghanolfan celfyddydau Seren y Môr – Star of the Sea yn y Borth. Yn wreiddiol o Marseille, mae Cathy wedi byw yn y pentre ers dros 25 mlynedd ac mae ganddi dros 30 mlynedd o brofiad ym maes cydlynyu perfformio a chydlynu prosiect. Bu'n sôn mwy am ei swydd newydd a'r ganolfan.

Tua diwedd 2018, daeth grŵp o drigolion lleol y Borth at ei gilydd i adfer adeilad hen gapel hardd ond segur Seren y Môr – Star of the Sea a hynny er mwyn rhoi lle i drigolion lleol ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol ffurfiol. Mae Seren y Môr yn ganolbwynt cymunedol lleol ar gyfer y celfyddydau a diwylliant – lle gall pobl gysylltu â'i gilydd, dysgu sgiliau newydd a chynnal y mathau o ddigwyddiadau maen nhw am eu gweld yn eu hardal leol. Darparu gweithgareddau gan y gymuned a thros y gymuned yw'r nod.

Cwmni Buddiannau Cymunedol yw Seren y Môr – Star of the Sea. Mae'n sefydliad dielw gydag wyth o gyfarwyddwr gwirfoddol. Yn 2021 fe lwyddodd y cwmni i ddenu grant bach gan Sefydliad Teulu Ashley i dalu am gydlynydd prosiect hunan-gyflogedig i wneud 48 diwrnod o waith mewn cyfnod o 12 mis. Prif bwrpas y rôl yw cynnig i'r gymuned, a chyda'r gymuned, ystod o


Cathy Piquemal

weithgareddau diwylliannol ar draws y celfyddydau gweledol a pherfformio trwy hwyluso digwyddiadau a gweithdai mewn ymateb i anghenion lleol (parhaol a thros dro). Rydym hefyd yn ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol ymhob agwedd o'n gwaith.

Dros y flwyddyn nesaf, y bwriad yw creu calendr o weithgareddau rheolaidd a fydd yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

- Dosbarthiadau/sesiynau/ gweithdai misol seiliedig ar y celfyddydau/
- Gigs cerddorol yn cefnogi artistiaid lleol yn ogystal â chenedlaethol a rhyngwladol.
- Gosodiadau celf: ee. newid hinsawdd / amgylchedd, cymunedau bregus
- Sesiynau symud / dawnsiau te
- Cerddoriaeth fwy amrywiol – lleol a thu hwnt
- Gofod Agored


Dave, Chris a Sam – tri o gyfarwyddwyr gwirfoddol Seren y Môr – Star of the Sea

Os hoffech fwcio'r neuadd neu drafod syniadau fyddai'n addas ar gyfer y lleoliad a'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud e-bostiwch starofthesea@gmail.com (mae croeso i chi fy nghynnwys i yn y neges hefyd starofthesea.cati@gmail.com). I gael y newyddion diweddaraf am gigs a digwyddiadau, dilynwch ni ar FB: www.facebook.com/StaroftheSeaBorth neu Instagram @starofthesea_borth.

**Codi arian i Wcráin**
Fel nifer ar draws Cymru a'r byd, mae pobl y Borth a'r cyffiniau wedi bod yn brysur yn codi arian i gefnogi apêl Wcráin am gymorth dyngarol.

**Café Wcráin ar 16 Ebrill**
Mae Rachel Hubbard o'r Borth yn trefnu Café Wcráin yn y neuadd gymunedol i godi arian at Apêl Ddyngarol Wcráin y pwyllgor argyfyngau DEC. Bydd yn cychwyn gyda sesiwn Pilates rhwng 9-9.30yb (angen bwcio lle) yna bydd Bore Coffi yn agored i bawb rhwng 10yb-12yp gyda stondinau amrywiol a raffl. Mae manylion pellach ar dudalen Facebook @rachel.b.hubbard.

gellid cyfrannu hefyd drwy wefan JustGiving.com.

**Brecwast Mawr y Borth**
Codwyd dros £1,000 o bunnau at yr apêl diolch i gyfres o sesiynau Brecwast Mawr y Borth a gynhaliwyd gan Hwb Cymunedol y Borth.

**Café Uncle Albert**
Ar 20 Mawrth, cafodd cyfanswm o £852.35 ei godi yng nghaffi Uncle Albert yn y pentref. Ar ddiwrnod braf o wanwyn, daeth pobl yn eu llu i brynu powlenni o Borscht y Borth, cacennau cartref a choffi, a chael eu diddanu yn y ciw gan Felix Cannadam yn canu'r acordion.

Trefnwyd y digwyddiad gan Elaine Teff, sydd wedi treulio amser yn Wcráin, a pherchennog y caffi Gabrielle Adamson. Cytunodd y ddwy i gynnal y digwyddiad codi arian pan oedd Gabrielle ar ben ysgol, yn paentio baner Wcráin ar wal tŷ Elaine yn y Stryd Fawr.

Hoffai'r ddwy ddiolch o galon i'r holl bobl hael a gefnogodd y digwyddiad ar 20 Mawrth, ac i'r sawl a gyfranodd wobrau raffl a chacennau.



# Newyddion Hwb Cymunedol y Borth




Mae gan yr Hwb ddefnydd o fws mini bellach, diolch i gynllun Trafnidiaeth Cymunedol Dolen Teifi. Mae'r bws eisoes wedi cael ei ddefnyddio i gludo aelodau'r Clwb Ieuenctid i Ganolfan Chwarae Prifysgol Aberystwyth ar gyfer sesiwn ar y wal ddringo, a bydd teithiau eraill I ddefnyddwyr yr Hwb yn cael eu trefnu yn y dyfodol agos.

Ar 22 Mawrth, cynhaliwyd gweithdy gwneud bara a chawl ar gyfer dynion sydd wedi dioddef profedigaeth diweddar. Yn sgil llwyddiant y sesiwn, bydd Luke Conlon nawr yn cynnal grwp rheolaidd ar ddydd Mawrth i ddynion sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig.

Cychwynnodd grwp ar gyfer rhieni newydd, babanod a darpar rieni ar ddydd Mawrth 29 Mawrth. Mae manylion pellach am y grwp yma a gweithgareddau eraill yr Hwb ar dudalen Facebook yr Hwb: @BorthCommunityHub neu ebostiwch lisa@borthfamilycentre.co.uk.

**Pwyllgor Apêl Eisteddfod Ceredigion**
Mae aelodau pwyllgor Cronfa Apêl y Borth wedi bod yn cwrdd unwaith eto, yn dilyn dwy flynedd o seibiant oherwydd y pandemig. Hyd yma, mae £4,834.50 wedi'i godi tuag at y targed o £5,000 yn sgil cynnal amrywiaeth o weithgareddau rhwng mis Mai 2019 a mis Chwefror 2020. Mae'r pwyllgor yn gobeithio derbyn cyfraniad gan Gyngor Cymuned y Borth a chynnal un digwyddiad arall cyn y daw'r Eisteddfod i Dregaron ym mis Awst.

**Gwellhad Buan**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Rosa Davies, Glanwern, sydd wedi bod yn ward Dyfi yn Ysbyty Bron-glais ers dros fis. Roedd Mrs Davies wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 16 Mawrth.

**Perchnogion newydd y Premier**
Croeso cynnes iawn i'r pentref i Jagdish a Netra Patel, perchnogion newydd siop Premier Family Stores. Maen nhw'n dod o Portsmouth ac mae ganddyn nhw dri o blant. Pob dymuniad da iddyn nhw gyda'u busnes newydd.

Diolch hefyd am eu gwasanaeth hir i gyn berchnogion y Premier, Ian Tomkewycz a Sara Hughes fu'n rhedeg y siop ers dros 20 mlynedd ac sy'n byw yn ardal Croesoswallt.

**Cyfyngiadau Cŵn**
Cofiwch bod y cyfyngiadau i atal cŵn rhag mynd i rannau o draeth y Borth yn dod i rym unwaith eto rhwng 1 Mai a 30 Medi. Mae'r cyfyngiadau ar gŵn yn cychwyn ar y traeth o dan y Graig ac yn ymestyn at yr ardal gyferbyn â'r Clwb Golff. Nid oes gwaharddiad ar fynd â chŵn ar y traeth rhwng y Clwb Golff ac Ynys-las. Helpwch ni i gadw'n Baner Las!



# Clwb Golff y Borth ac Ynys-las

Dyma ganlyniadau cystadlaethau diweddaraf Clwb Golff y Borth ac Ynys-las. Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr ac i bawb fu'n cystadlu.





**Adran y Dynion**
Yng nghystadleuaeth Texas Scramble Duxbury Williams, y triawd buddugol ar 57 pwynt oedd y Capten Bob Gill, Derek Saunders a Tom Thomas. Yn ail ar 59 pwynt roedd John Blackman, Kevin Lewis a Melvyn Evans.

Yng Nghwpan Kenneth Jones, y tîm buddugol oedd Dave Leemans a Brian Middleton ar 42 pwynt gyda Gareth Jones a K Griffiths yn ail ar 38 pwynt.

**Adran y Menywod**
Ar ddydd Sadwrn 5 Mawrth cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol Llechen Dewi Sant, y wobr yn rhodd gan gyn Lywydd y Clwb Anna Hubbard. Cystadleuaeth i dimau o dri unwaith eto oedd hon. Jane Raw Rees, y Capten Mair Jenkins a Ruth Jones a gipiodd y wobr gyntaf ar 78 pwynt, gyda thîm Anna Hubbard, Juliet Jones a Ruth Morris yn ail ar 64 pwynt.


# Lyn Lewis Dafis – Teyrnged

Ar 15 Mawrth bu farw y Parchg Lyn Lewis Dafis. Roedd yn byw ym Mhenrhyn-coch ers haf 2015, yn gyntaf fel ciwrat, ac yna ers y llynedd fel Gweinidog Cynorthwyol yn Ardal Bro Padarn. Roedd ganddo gyfrifoldeb arbennig dros Eglwys St Ioan, Penrhyn-coch ac Eglwys St Pedr, Bont-goch. Cynhaliwyd angladd preifat yn Amlosgfa Aberystwyth fore Sadwrn, 26 Mawrth, a gwasanaeth coffa cyhoeddus yn Eglwys Llanbadarn Fawr yn y prynhawn. Rwy'n siŵr y dymunai'r ardalwyr estyn pob cydymdeimlad at ei frawd Robert, a'i chwaer Mandy, ei phartner Alun, a'r plant Sara a Dion yn eu colled.

Ganwyd Lyn ym Mynachlog-ddu, Sir Benfro yn 1960. Ar ôl addysg yn lleol daeth i'r Brifysgol i Aberystwyth a graddio'n y Gymraeg yn 1981. Treuliodd yr wyth mlynedd nesaf gyda llyfrgelloedd Dyfed a Morgannwg Ganol, heblaw am y cyfnod 1985-86 pan ddaeth yn ôl i Aber i wneud y cwrs llyfrgellyddiaeth. Yn 1989 fe'i penodwyd ar staff y Llyfrgell Genedlaethol, ac yno y bu am dros chwarter canrif nes gadael yn 2014. Roedd Lyn yn ddyn galluog dros ben, yn un a allai feistroli hanfodion pwnc yn gyflym. Gwnaeth waith arloesol yn y Llyfrgell ym maes digido, hynny ydi, rhoi deunydd ar y we fel y gallai defnyddwyr pell ac agos gael mynediad ato'n rhwydd.

Roedd Lyn wedi'i fagu mewn ardal lle'r oedd traddodiad cryf o radicaliaeth wleidyddol a heddychiaeth, ac fe lynodd Lyn yn driw i'r traddodiad hwnnw. Bu'n weithgar gyda Chymdeithas yr Iaith ac fe olygodd eu cylchgrawn, *Tafod y Ddraig*, am flynyddoedd. Bu hefyd yn aelod gweithredol o Blaid Cymru gan wasanaethu ar Gyngor Tref Aberystwyth yn 2008-12. Yn y Llyfrgelll Genedlaethol, bu'n swyddog undeb effeithiol a doeth am flynyddoedd, ac mae sawl un yn ei ddyled am ei waith yn eiriol drostynt.

Roedd pawb oedd yn adnabod Lyn yn gwybod ei fod yn byrlymu o hwyl a direidi, ac yn un oedd yn





gallu cymysgu gyda phobl o bob math a phob oed. Welais i neb gyda phersonoliaeth mwy enillgar nag a oedd gan Lyn. Hefyd roedd ganddo ddawn i berfformio, a chan ei fod mor ddifyr ac mor barod ei gymwynas gelwid arno'n aml i gynnal noson gyda chymdeithas leol, cynnal cwis, cyfieithu ar y pryd ac yn y blaen – roedd o'n amryddawn iawn.

Gyda'r Bedyddwyr y magwyd Lyn ym Mynachlog-ddu, ond yn ystod ei ail flwyddyn yn y coleg yn Aber fe gafodd brofiad crefyddol dwfn a ddylanwadodd arno am weddill ei oes. Fe fu'n mynychu sawl lle o addoliad yn y blynyddoedd nesaf, ond pan oedd ym Morgannwg ddiwedd yr 80au y dechreuodd fynd i'r Eglwys. Pan ddaeth yn ôl i Aber dechreuodd fynychu Eglwys y Santes Fair, a bu'n fawr ei gyfraniad yno am flynyddoedd. Bu'n warden gweithgar ac yn y man fe'i trwyddedwyd yn ddarllenydd lleyg. Erbyn 2014 roedd wedi penderfynu gadael y Llyfgell ac aeth am flwyddyn i Goleg St Mihangel yn Llandaf i'w hyfforddi i fod yn offeiriad. Ym Mhenrhyn-coch a Bont-goch, oddi fewn i gylch ehangach Bro Padarn, y treuliodd ei weinidogaeth. Bellach gallai gysegru ei holl ddoniau i waith yr Eglwys, ei feddwl miniog, ei ddawn berfformio a'i ddawn ryfeddol i drin pobl a phlant. Roedd plant Ysgol Penrhyn-coch, a'u hathrawon, yn meddwl y byd ohono, ac yntau wrth ei fodd yn ymweld â'r ysgol. Anogodd gydweithio rhwng Horeb a'r Eglwys yn trefnu Llanllanast fel math o ysgol Sul gyfoes ar gyfer plant y ddau le. Bydd y golled ar ei ôl i'r eglwys a'r gymdeithas ehangach yn un fawr iawn. Coffa da amdano.

**Richard Owen**



**Lyn yn cynnal un o'i sesiynnau yn Ysgol Penrhyn-coch**

---

Diolch i Richard Owen, cyfaill Lyn am y deyrnged – diolch iddo hefyd am ofalu amdano am dros bedair blynedd, a galluogi iddo barhau â'i waith hyd y gallai.

## Cyngor Cymuned Geneur Glyn

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor:** cyngorcymunedgeneurglyn communitycouncil.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 28.03.2022 yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre, 'roedd 2 Aelod yn absennol. Roedd 1 Aelod o'r cyhoedd yn bresennol fel sylwedydd. (Os dymunwch fod yn bresennol mewn unrhyw cyfarfod, cysylltwch a'r Clerc).

**Trafodwyd**:

- **Materion Cyllid:** Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd i talu'r canlynol: Cyflog y Clerc, HMRC - Treth Incwm, Aelodaeth Un Llais Cymru, Beinciau, Baner, Costau banc, Siglen, Archwilio Cymru.
- **Parc a'r Cyrtiau Tennis**: Offer newydd wedi'i osod. Cwmni yswiriant wedi cytuno talu allan, Afan Construction wedi'i dewis i cwblhau'r gwaith.
- **Adroddiad gan y Cyng Ray Quant**: Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd.
- **Cais Cynllunio**: derbyniwyd manylion cais cynllunio, A220079 Brynffynnon, Borth. Dim gwrthwynebiad.
- **Bocs Grit**: Y clerc I wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir I osod bocs grit yn Dôl-y-bont.
- **Eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf**: Datblygiadau'r Parc yn y Dyfodol.
- **Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor ar 25 Ebrill 2022 yn Ysgoldy'r Bethlehem am 7.00yh.

Pauline Lucas:
clercgeneurglyn@yahoo.com

## Llandre

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Elena Davies, Bronallt, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar; mae nawr adref.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Emyr a Menna Hughes, Penrallt, Lôn Glanfred, ar enedigaeth mab o'r enw Eunydd Gatty.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Dylan Huw, Bancyreithin, ar ennill Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd 8 artist eu dewis allan o dros 90 o geisiadau, a bydd y grant o £25,000 yn ei alluogi i sgwennu am brosiectau'n ymwneud â'r berthynas rhwng celfyddyd a'r diwylliant Cymreig a materion amgylcheddol.

**Swydd newydd**

Llongyfarchiadau i Gwern Penri James, Gwyniarth, Taigwynion sydd wedi ei wahodd i fod yn Brif Ddadansoddwr Perfformiad a Hyfforddwr Cynorthwyol i dîm Rygbi Cenedlaethol Dynion Canada. Wedi cyfnod yn gweithio gydag Undeb Rygbi Cymru a thîm y Dreigiau, bydd Gwern yn symud i Ynys Vancouver gan ddechrau ar ei swydd gyda Rygbi Canada ym mis Ebrill. Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd lle bydd yn cydweithio gyda Kingsley Jones a Robert Howley.




## Llythyr

Angen eich help i feddwl am enw a logo newydd i'r prosiect O'r Mynydd i'r Môr. Mae datblygiadau mawr ar y gorwel! Mae copi caled o grynodeb y Glasbrint ar gyfer y prosiect, sydd wedi cael ei ddatblygu a'i gyd-ddylunio gyda mewnbwn pobl leol, wedi'i fewnosod yn y papur hwn. Gallwch weld y Glasbrint cyfan ar www.ormynyddirmor.cymru

Gyda'r prosiect wedi newid yn sylweddol ers y dyddiau cynnar, mae'n amser newid yr enw o 'O'r Mynydd i'r Môr' i enw sy'n adlewyrchu'r Glasbrint. Chi, y bobl leol yw'r rhai gorau i ddewis yr enw newydd, felly rydym angen eich help chi!

Gofynnir i chi gynnig eich syniadau am enwau newydd trwy ebostio sian.stacey@ormynyddirmor.cymru erbyn y 10fed o Fai, neu drwy sganio y cod QR ar y copi caled o'r Glasbrint yn y papur. Bydd ein Grwp Cyswllt yn creu rhestr fer gyda chyfle i chi bleidleisio am eich ffefryn ar ein gwefan, ein tudalen Facebook ac Instagram cyn diwedd Mai. Cadwch lygad ar rhain am y datblygiadau diweddaraf.

**LOGO NEWYDD!**

Ydych chi'n ddylunydd neu'n artist lleol? Byddwn angen logo newydd i gyd fynd â'r enw newydd. Mae cyllideb o £300 ar gael i ddylunio'r logo yn ystod Mehefin eleni. I fynegi diddordeb ebostiwch sian.stacey@ormynyddirmor.cymru er mwyn derbyn copi o'r briff.

Diolch i chi am eich holl gymorth a chefnogaeth dros y misoedd dwytha. Os hoffech wybod mwy am y prosiect neu i drefnu sgwrs dros baned, mae croeso mawr i chi gysylltu.

**Siân Stacey**


James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
10.00-5.00
Brecwast
ar gael
01970 820 050
Pennau

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

# LLE MAE NHW NAWR?

Tybed lle maen nhw nawr? Yn y gyfres newydd hon, rydym yn gobeithio ateb y cwestiwn hwn wrth ystyried rhai a fu'n byw yn yr ardal hon pan oeddent yn blant ond sydd bellach wedi gadael yr ardal. Dwy chwaer sy'n destun y cyntaf yn y gyfres - Ffion Gwyn a Siwan Jenkins. Bu'r ddwy yn byw ym Mhenrhynccoch, yn ferched i Brian a Beti Wyn Davies, cyn i'r teulu symud i Daliesin. Mae'r llwybrau'r ddwy wedi eu harwain i ardaloedd gwahanol iawn yng Nghymru, y naill wedi symud i'r gogledd a'r llall wedi symud i Gaerdydd. Mae eu gyrfaoedd wedi bod yn dra gwahanol ond mae'r ddwy yn gwasanaethu eu cymunedau mewn ffyrdd arbennig iawn ac yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at fywydau pobl eraill. **Iona Davies**

## Ffion Meleri Gwyn

Yn enedigol o Benrhyn-coch symudais i Daliesin pan oeddwn yn bum mlwydd oed. Cefais fy addysg gynradd yn ysgol Rhydypennau lle roedd fy nhad yn brifathro. Wedi cwlbhau fy addysg uwchradd yn Ysgol Penweddig, symudais ymlaen i wneud cwrs Cerameg ym Mhrifysgol Caerdydd, a chwrs ymarfer dysgu ym Mhenweddig. Yna, symudais i fyw yn Nolgellau a chymryd swydd darlithydd yn yr adran gelf yng Ngholeg Meirion Dwyfor yno, ac yna ar safle Pwllheli. Dw i ers dros ddegawd bellach wedi bod yng Nghricieth, a'r plant (dau fab) wedi cael lle braf i dyfu fyny. Yn ogystal â fy swydd fel athrawes gelf a'r Fagloriaeth rwyf yn Gynghorydd tref ac wedi cael llwyddiant yn ddiweddar trwy ennill gwobr genedlaethol 'Bywydau Creadigol/ Creative Lives', a gwobr 'Hearts for the Arts'. Dw i'n mwynhau crwydro llwybrau lleol a dogfennu fy nheithiau trwy ffotograffiaeth a gwaith arlunio.

Enillodd Ffion y wobr 'Hearts for the Arts' 2022 yn y categori 'Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau' am ei gwaith yn arwain a dylunio prosiectau cymunedol Cricieth Creadigol. Mae hi wedi gadael ei marc ar Gricieth ac wedi gweithio'n galed i harddu pob cwr o'r dref. Roedd hon yn gystadleuaeth ledled y Deyrnas Unedig, dan adain Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, elusen a sefydliad annibynnol sy'n ymgyrchu am ragor o fuddsoddiad yn y celfyddydau, er gwella bywydau pawb. Mae ennill y wobr hon a'r wobr 'Creative Lives Cymru' yn dipyn o bluen yn ei het ac yn cydnabod ei chyfraniad arbennig i fywyd Cricieth.



Mae Siwan yn cynnig gwasanaeth arbennig mewn maes cwbl wahanol:

## Siwan Jenkins



Symudais i Gaerdydd yn 1992 i ddechrau fy hyfforddiant fel nyrs ac ar ôl gorffen fy nghwrs cefais fy swydd gyntaf ym maes Haematoleg yn Ysbyty'r Waun. Gweithiais mewn amryw o swyddi o fewn Haematoleg, ar y ward ac ar yr ochor trawsblaniad, fel nyrs yn hyfforddi rhoi Cemotherapi ac yn Rheolwr ar yr Uned Ddydd. Roeddwn yn edrych ar ôl cleifion dros ardal eang o Dde a Gorllewin Cymru a chanddynt Lewcemia a Lymffoma. Roedd yn fraint dod i adnabod y teuluoedd dros gyfnod hir o driniaeth caled a'u cefnogi trwy'r salwch. Ar ôl 17 mlynedd penderfynais symud i weithio yn y gymuned yn rhoi gwrthfiotegau i gleifion yn eu cartrefi er mwyn eu cadw allan o'r ysbyty. Roedd yn nyrsio o fath gwahanol iawn, wrth i mi deithio o amgylch Caerdydd am 9 mlynedd yn ymweld â chleifion yn eu tai eu hunain, rôl ymreolaethol yn gweithredu fel eiriolwr ac yn helpu rhai a oedd yn dioddef o wahanol glefydau. Ar ddechrau COVID ddwy flynedd yn ôl dechreuais weithio yn y ganolfan brofi ac yna yn y ganolfan brechu torfol ym Mae Caerdydd. Roedd yn gyfle i gydweithio â sawl nyrs,doctor,myfyrwyr a gwirfoddolwyr o bob cefndir - pawb yn cydweithio dros yr un achos. Roedd yn amser llawn pryder ond yn obeithiol ar yr un pryd.

Yn ddiweddar yn ogystal â gweithio yn y Ganolfan Brechu Torfol rwyf wedi newid fy swydd a nawr rwy'n gweithio yng Nghanolfan Ganser Ysbyty Felindre fel Nyrs Glinigol yn arbenigo mewn Gofal Lliniarol. Rwyf yn ceisio rheoli symptomau cymhleth, rhoi cefnogaeth emosiynol i gleifion a'u teuluoedd a threulio amser yn siarad am beth sydd yn bwysig a cheisio cynllunio i'r dyfodol mewn camau realistig. Mae'n rôl anodd ac emosiynol ar brydiau gan ein bod yn gofalu am rai ifanc a theuluoedd ifanc yn eu cartrefi. Mae hefyd yn rôl freintiedig sydd yn rhoi y cyfle i mi allu treulio amser yn ceisio helpu cleifion mewn amseroedd anodd.

Rwyf yn byw yn Rhiwbeina yng Nghaerdydd, ardal Gymraeg ac rwy'n hapus iawn yno. Rwyf yn briod ac mae gennyf 3 o blant sydd yn mynychu Glantaf ac Ysgol y Wern ac yn tyfu i fyny yn rhy gyflym o lawer. Yn fy amser rhydd rwyf yn mwynhau cerdded yn y Wenallt neu ger Castell Coch gyda fy nghŵn. Mae mam a dad dal yn byw ger Aberystwyth ac rwyf yn mwynhau dod adref pan allaf.



# Adolygiadau


**Gerald Morgan**
***Ewyllysiau Cymraeg***
**Y Lolfa, t.144 £9.99**

Arfer na ellir ei gymeradwyo yw busnesa ym mywydau pobl eraill, er cymaint y pleser a'r addysg a geir o wneud hynny. Yn y llyfr bach hylaw yma gan Gerald Morgan fodd bynnag cawn dragwyddol heol i archwilio busnes degau os nad cannoedd o bobl a fu farw rhwng 1560 ac 1858, neu yn hytrach i bori yn eu hewyllysiau, a hynny am eu bod wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg. Daw brwdfrydedd yr awdur am ei bwnc yn amlwg ar ddechrau ei ragair byr – "rwyf am i chi droi i'r bennod gyntaf heb oedi". Mae hynny hefyd yn gosod cywair sgyrsiol y testun gydol y llyfr - gallwn dystio mai mewn darlith roeddwn i ar adegau.

Gan mai'r Eglwys ac nid y wladwriaeth oedd yn gweinyddu ewyllysiau adeg Deddfau Uno 1535-1542 chafodd y Gymraeg ddim o'i gwahardd. Esgobaethau Cymru oedd yn prosesu'r ewyllysiau ac yn eu cadw, a dyna sut mae'r dogfennau yn y Llyfrgell Genedlaethol. Gan fod llawer o'r cymynwyr (h.y. y bobl oedd yn llunio'u hewyllys) yn anllythrennog neu wedi gadael y dasg hyd y funud olaf, ewyllys lafar wedi ei thrawsygsrifio ym mhresenoldeb tystion yw llawer ohonyn nhw. Roedd hynny'n gyfreithlon hyd 1837, ond dim ond ar faes y gad mewn rhyfel mae'n cael ei ganiatàu bellach.

Mae teitlau penodau yn rhoi awgrym o'r llwybrau y bydd y darllenydd yn cael ei arwain ar hyd-ddyn nhw, e.e. Ewyllysiau Merched, Tafodiaith y Gogledd, Lleisiau'r De, Costau Clefyd a Chladdedigaeth, Trafferthion Teuluol, a'r sylw yn sboncio o'r naill ewyllys i'r llall, gan roi enw'r cymynnwr, ei ardal, a dyddiad ei farw/ei marw bob tro. Mae'r ewyllysiau eu hunain yn llawn ffeithiau am deuluoedd a pherthnasau, am offer gwaith a chelfi cartref, ac am arferion cymdeithasol. Diddorol nodi bod rhaid i wraig fod yn weddw neu'n sengl i feddu ar eiddo, felly ni fyddai gan wraig briod ddim eiddo i'w adael i neb.

Pwnc arall o ddiddordeb yw safon/purdeb/natur yr iaith sy'n




amrywio rhwng "*Wenglish*" a Chymraeg pur. Efallai bod iaith yr ewyllysiau hynaf o'r gogledd yn fwy dealladwy na'r rhai o'r de, ond teimlais gynhesrwydd cyfarwydd wrth ddarllen geiriau Rees Sandbrooke o Landudoch "... fel in rwdwi mroi i Corg Samrwg ifang gimi o lafir..."(... fel hyn rydw i am roi i George Sandbrooke ifanc gymaint o lafur...). Diddorol iawn yw sylw'r awdur bod safon yr iaith yn gwella gyda dyfodiad ysgolion Griffith Jones a thwf ymneilltuaeth. Yn y cyd-destun hwnnw, trawiadol yw ewyllys Dafydd Thomas, labrwr dibriod o blwyf Llanofer a fu farw yn 1828 ac a adawodd ei bopeth yn ddiwahân "at wasanaeth Cenhadon yr Arglwydd yn Blaenafon".

Mae'r llyfr yn symud fel y gwynt i gyflwyno gwybodaeth newydd a diddorol; mae'n syndod cymaint sydd ynddo, rhwng ffeithiau cefndirol, manylion yr ewyllysiau, yr ystadegau, a'r rhestr o dermau dethol ar y diwedd. Byddai mynegai yn nhrefn yr wyddor wedi bod yn ychwanegiad gwerthfawr gan ei fod yn gasgliad i droi yn ôl ato dro ar ôl tro.

Hyfryd yw gweld cydnabyddiaeth i waith y diweddar Dr Evan James, Penrhyn-coch, a fu, yn ôl tystiolaeth yr awdur, wrthi'n darllen, astudio, a chopio hen ewyllysiau flynyddoedd cyn iddo ef ei hun gael ei ffordd yn rhydd i wneud hynny.

**Llinos Dafis**



**Rhifyn Mai** – Dyddiad cau: Mai 6
Dyddiad cyhoeddi: Mai 18



GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

**DARLITH FLYNYDDOL MORLAN – PANTYFEDWEN 2022**

**The Word of the Lord?**
**Making the Bible Make Sense**
Darlith gan Y Gwir Barchedig Jeffrey John,
caplan cysylltiedig Eglwys St George's, Paris
**Nos Fawrth, 3ydd o Fai, 2022**
6.00 o'r gloch
yng Nghanolfan Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth

Canolfan Morlan / Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
**01970 617120**
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru


# Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**
*Ebrill*
17 10.30 Judith Morris Sul y Pasg
24 10.30 Peter

*Mai*
1 2.30 Peter Thomas
22 10.30 Peter Thomas

**Pel-droediwr addawol**
Llongyfarchiadau i Twm Williams, Dôl Helyg, ar gael ei ddewis i sgwad Elite Abertawe.

**Swydd newydd**
Dymuniadau gorau i Llifon Ellis, Ger-y-cwm, sydd yn gadael ei swydd yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth lle bu ers deuddeng mlynedd ar ôl cael ei benodi'n bennaeth E-sgol. Pob hwyl iddo ar yr her newydd.

**Diolch**
Dymuna Anwen, Ffion a Rhian Wynne a'r teulu ddiolch yn ddiffuant i bawb am y llu o gardiau, negeseuon, blodau a rhoddion a dderbyniwyd yn dilyn eu profedigath sydyn. Derbyniwyd rhoddion o £1,330 i'w rhannu rhwng Sefydliad Cenedlaethol y Galon Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Plant Byddar er cof am Tony. Diolch am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Dafydd Sheppard, Pen-hw, Cil-y-coed (gynt o Dôl Helyg) ar farwolaeth Ellen Sheppard, yng Nghasnewydd canol Mawrth; â'r Parchg Judith a Wyn Rh. Morris ar golli mam Judith ym Mhontardawe ar 16 Mawrth; ac â Eirwen Hughes a'r teulu, Pen-cwm ar farwolaeth brawd Eirwen - Dilwyn James, Cwmudw, Tal-y-bont ar 7 Ebrill.



**Llongyfarchiadau i Siôn Wyn, Dolhelyg ar ennill gradd BA o Goleg y Drindod, Campws Caerdydd yn ddiweddar mewn perfformio. Bydd Siôn yn aros yng Nghaerdydd, lle mae yn gweithio ym maes y cyfryngau yn perfformio a chanu gyda gwahanol brosiectau**

**Derbyn arian**
Llonyfarchiadau i bwyllgor PATRASA ar lwyddo i gael £25,000 gan Loteri Cod Post y Bobl tuag at eu cynlluniau i'r Cae Chwarae.

**Arweinydd gorau**
Llongyfarchiadau i Rachel Blair enillodd dlws am arweinydd gorau 2022 yng nghystadleuaeth Côr Cymru.



**Dyrchafiad**
Llongyfarchiadau i Jamie Medhurst, Cae Mawr, ar ei ddyrchafiad yn ddiweddar. Mae Jamie bellach yn Athro'r Cyfryngau a Chyfathrebu ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac mae'r teulu cyfan yn falch iawn ohono



**Llongyfarchiadau i Katy Evans enwebwyd am un o wobrau y Senedd yn ddiweddar.**

## Pêl-Droed Penrhyn-Coch

**CANLYNIADAU**
**Tîm cyntaf**
*Mawrth*
12 Penrhyn-coch 0 Hotspur Caergybi 1
26 Llanrhaeadr-ym-Mochnant 0 Penrhyn-coch 3

*Ebrill*
2 Penrhyn-coch 1 Conwy 1

**Eilyddion Penrhyn-coch**
Mawrth
19 eilyddion Penrhyn-coch 1 eilyddion Bow Street 3

26 Eilyddion Penrhyn-coch 2 Eilyddion Berriew 6



Llun: Beverley Hemmings

# Cylch Cinio Aberystwyth

Wedi'r hir ymaros a diflastod maith y coronafeirws fe lwyddodd y Cylch Cinio i ail-gynnull ar nos Wener Ebrill 8fed. Daeth criw da ynghŷd i westy'r Marine a braf oedd cael cyfle unwaith eto i gymdeithasu. Cyflwynodd y Cadeirydd John Williams y siaradwr gwâdd Aled Evans, Mynach a fu'n ein swyno am hanes, diwylliant a naws ei filltir sgwâr. Soniodd am gyfnod byrlymus y gweithfeydd mwyn ar lethrau Pumlumon, am natur fryniog yr ardal sy'n ymestyn o Bonterwyd i Bontarfynach a Phont-rhyd-y-groes ac am ddylanwadau gormesol yr hen stadau oedd dros y blynyddoedd wedi meddiannu llawer iawn o'r tir a'r tyddynnod yn y fro. Daw Aled o linach nodedig a diwylliannol a bu'n brifathro am flynyddoedd ar Ysgol Mynach Pontarfynach cyn symud i fod yn Swyddog Addysg gyda'r Cyngor Sir. Diolchwyd iddo am rannu ei wybodaeth helaeth am hanes y fro gan Geoff Davies. Enillydd y raffl oedd Dewi Hughes Llanbadarn.

Oherwydd natur anarferol ac eithriadol y cyfnod bu'n rhaid dileu ein cyfarfodydd misol am yn agos i ddwy flynedd a phenderfynwyd yn unfrydol i ofyn i'r Cadeirydd barhau yn ei swydd am flwyddyn lawn arall. Etholwyd John Watkin, Ffair Rhos yn Is-Gadeirydd. Ail Etholwyd Huw Williams, Ysgrifennydd, Dicky Wyn Davies, Trysorydd a Wynne Melville Jones a Dafydd Evans yn ohebwyr y wasg. Cytunodd Huw Williams i fod yn gyfrifol am sicrhau cyflenwad misol o wisgi fel gwobr ar gyfer y raffl.

Dymunwyd gwellhad llwyr a buan i Tegwyn Lewis, Rhos-goch sydd yn derbyn gofal yn Ysbyty Bron-glais, Cydymdeimlwyd gyda Gareth Davies, Llanbadarn Fawr yn dilyn marwolaeth ddisyfyd yn y teulu a dymunwyd yn dda i Hefin Jones, un o sylfaenwyr y Cylch, sydd bellach wedi ymgartrefi yn Rhiwbeina Caerdydd.

Ar gais Dewi Hughes cafwyd trafodaeth ynglŷn â chefnogi ffoaduriaid rhyfel Wcráin a chytunwyd i wneud cyfraniad ariannol o £2500. tuag at waith yr Urdd yn darparu lloches i 250 o ffoaduriaid yn un o'i canolfannau.

Gyda chynlluniau nawr ar y gweill i gynnal Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn Nhregaron eleni mae'n gyfnod cyffrous i'r aelodau gan mae'r Cylch sy'n cyfrannu'r Gadair i'r Eisteddfod hon. Mae'r gadair o waith Rees Thomas, Bow Street wedi ei chwblhau a gwneir trefniadau o hyn i'r haf i'w throsglwyddo i'r Eisteddfod, Penderfynodd yr aelodau y byddai'n briodol i drefnu achlysur ar faes yr Eisteddfod i ddathlu'r gadair ac fe fydd y trefniadau yn symud ymlaen i drefnu digwyddiad teilwng yn ystod wythnos yr Eisteddfod.



Marchnad Ffermwyr
Aberystwyth
Dydd Sadwrn 1af a'r
3ydd dydd Sadwrn bob mis
www.aberystwythfarmersmarket.co.uk
CEREDIGION



Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992



inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200








Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Bow Street



**Suliau Noddfa**

*Mai*

1 Richard Lewis
8 Uno yn y Garn
15 Uno yn y Garn. Sul Cymorth Cristnogol.
22 Richard Lewis
29 Richard Lewis

**Suliau Capel y Garn**

*Ebrill*

15 Gwener y Groglith Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog dros Zoom am 10 o'r gloch
17 Sul y Pasg Oedfa'r ofalaeth dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch
24 Oedfa'r Dydd Gweddi'r Byd am 10 o'r gloch

*Mai*

1 Oedfa am 10 o'r gloch dan ofal Mr Alan Wynne Jones
8 Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Parch Wyn Morris
15 Oedfa gymun am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog
22 Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch
29 Oedfa i'w threfnu am 10 o'r gloch

**Capel y Garn**

Daeth gofalaeth y Garn ynghyd yng Nghapel y Garn ar Sul cyntaf mis Mawrth pan lansiwyd apêl 'Hadau Gobaith'. Cafwyd casgliad at argyfwng Wcrain yn ystod y gwasanaeth. Daeth Dr Rhidian Griffiths i'n gwasanaethu fore Sul, Mawrth 13, a'n Gweinidog, y Parch Watcyn James y ddau fore Sul wedi hynny.

Er siom i bawb methodd Gwenan Gibbard ddod i'r Gymdeithas Lenyddol oherwydd anhwylder, ond mae Clonc a Phaned ar foreau Iau yn dal i gyfarfod i rannu'r amser rhwng sgwrs ddiddan ar amrywiol destunnau ac ystyriaeth fanwl o rai adnodau o Lythyr Paul at y Philipiaid.

Mae rhifyn Gwanwyn 2022 o *Gair o'r Garn,* cylchlythyr yr ofalaeth, bellach wedi ei gyhoeddi, diolch i waith dyfal Marian Beech Hughes.

**Noddfa**

Yn ystod gwasanaeth Gŵyl Dewi eleni soniodd y Parch Richard Lewis am fywyd Dewi Sant ac am ei gysylltiad ag Eglwys Llanddewibrefi gan ddisgrifio rhai o'r artiffactau o ddiddordeb a welir yn yr eglwys.

Felly trefnwyd i fynd i ymweld â'r eglwys ar y 20 Mawrth o dan ein rhaglen cyfeillach a drefnir yn gyson drwy'r flwyddyn.Tywyswyd ni o gwmpas yr eglwys gan y Warden sef Mrs. Llinos Griffiths. Cawsom weld y dair ffenestr liw hardd a osodwyd yno yn ystod 70au y ganrif flaenorol, y ffenest chwith, yn gyflwynedig i Dewi Sant, y dde i Sant Padarn tra dangosai'r un ganol fywyd Iesu Grist. Mae'r rhain yn nodedig gan bod pob ffenestr arall o wydr plaen.Yn nodedig hefyd oedd y cerrig praff,,tal hynafol yn deillio o'r seithfed hyd at y ddegfed ganrif Roedd un ohonynt a llythrennau ogam wedi eu cerfio arni ac un arall y groes.Saif y rhain o dan y tŵr sydd yn gartref i un gloch yn unig lle gynt y bu pump .Ar ochr dde i'r brif fynedfa saif cerflun mawr o Dewi Sant a roddwyd i'r eglwys gan Miss. Eleanor Jones yn 1960.




Y tu allan i'r eglwys, o graffu'n ofalus ar y wal wrth gefn y tŵr, gellir gweld Carreg Idnerth er cof am Idnerth fab Iacob.Credir bod y garreg yn dyddio o tua ail hanner y chweched ganrif neu hanner cyntaf y seithfed ganrif. Mae carreg arall hefyd sydd ag enw Dewi Sant arni.Tybir bod gweithwyr wedi gosod y cerrig wyneb i waered a thorri rhai ohonynt wrth drwsio'r wal ar rhyw adeg gan eu gwneud yn anodd i'w darganfod.

Ar ôl yr ymweliad difyr yn llawn hanes, cawsom gyfle i gymdeithasu â'n cyd aelodau dros de blasus yn llawn danteithion yng Ngwesty'r Talbot, Tregaron.

Diolch i swyddogion yr eglwys am ganiatad ac i Mrs.Llinos Griffiths am ein tywys o gwmpas, i aelodau Noddfa am bob cefnogaeth, i'r Parch Richard Lewis am baratoi pecynnau gwybodaeth,Vaughan Griffiths am dynnu lluniau, Meretta Griffiths am gysylltu â phawb ac am hwyluso'r gwaith trefnu.Diolch yn fawr. G.D.J

**Diolch**

Hoffai Mr Eric Davies, 8 Maes Ceiro, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, caredigrwydd a chyfeillgarwch a brofodd dros yr wythnosau diwethaf wrth iddo ddygymod â'r brofedigaeth o golli Beti. Mae o hefyd am



**Grŵp Cerdded Rhydypennau**

Mwynhaodd 16 aelod o grŵp cerdded Rhydypennau daith hyfryd drwy'r coed a'r caeau ym mhen pellaf Cwmrheidol. Roedd peth dringo egnïol ond cyfleoedd hefyd i orffwys yn yr haul am funud.



# Merched y Wawr Rhydypennau

Buom yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Neuadd Rhydypennau ar y 14eg o Fawrth. Croesawodd Marian Beech Hughes ni yn gynnes, ac roedd criw da wedi dwad ynghyd. Ein gŵr gwadd oedd Iestyn Hughes. Dangosodd inni nifer o'r lluniau sydd ganddo, oedd yn ddiddorol dros ben. Hefyd bu yn sôn am y llyfrau mae wedi eu cynhyrchu; maent yn cynnwys lluniau ac esboniadau. Wedyn cawsom bapur efo 20 cwestiwn arno am rai o'r lluniau a ddangoswyd. Buom i gyd yn meddwl yn galed am yr atebion, a'r goreuon oedd Ann Jones a Gweneira Williams. Ar y diwedd cawsom focs bob un o de prynhawn wedi ei baratoi gan Mirain Haf o Lanilar. Wel wir roedd yn flasus dros ben. Margaret Roberts oedd yng ngofal y te.



ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at sicrhau angladd teilwng a pharchus iddi.

**Cydymdeimlad**

Fe ddaeth profedigaeth i ran nifer o deuluoedd y pentref dros yr wythnosau diwethaf ac fe gydymdeimlir yn ddiffuant â phob un ohonynt. Nodwn yn benodol Mrs Bethan Jones, 2 Maeshendre, Waunfawr, a'r cysylltiadau â Chaergywydd ar farwolaeth ei brawd Llew yn Rhyd-y-main.

**Pwyllgor Henoed**

Pan gyfarfu Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre yn ddiweddar cafwyd cyfle i nodi y llu o negeseuon o werthfawrogiad oedd wedi dod i law am yr anrheg Nadolig hyfryd yr oedd henoed y cylch wedi ei dderbyn. Wrth edrych ymlaen i'r dyfodol penderfynwyd mai annoeth ar hyn o bryd fyddai gwneud penderfyniadau parthed y tripiau arferol ag ati yn y gobaith y bydd modd gwneud trefniadau pendant pan fydd y Pwyllgor yn cyfarfod eto ar y 25ain o Fai. Cafwyd trafodaeth hefyd ar ddyfodol Coffi a The Afallen Deg wrth iddi ddod yn amlwg fod sicrhau gwirfoddolwyr i ofalu amdanynt yn mynd yn fwyfwy annodd ond ni ddaethpwyd i unrhyw benderfyniad pendant ar hyn o bryd.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Jon a Sharon King, Elgar, a'r teulu ar farwolaeth tad Jon – Mike King – yn Bow Street ar 18 Mawrth.

ac ag Alwyn Owen a'r teulu, Y Lôn Groes ar farwolaeth brawd Alwyn – John Owen ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar.

**Pen-blwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau mawr i Mr Dewi Evans, 93 Bryncastell, ar ddathlu ei ben blwydd yn 80 ar y 1af o Fawrth a phob dymuniad da iddo am flynyddoedd lawer eto.

**Teyrnged**

Mrs Beti Davies, 8 Maes Ceiro

Gyda syndod mawr y clywodd ei chydnabod am farwolaeth sydyn Beti yn Ysbyty Bron-glais ar y 27ain o Chwefror a hynny mor fuan ar ôl iddi hi ei hun golli Dei ei brawd ddechrau mis Ionawr. Un o'r llond tŷ o blant a fagwyd ar aelwyd Ruel Isaf, Bow Street, oedd Beti, neu Elizabeth i roi ei henw bedydd llawn iddi. Dau yn unig o'r llond tŷ hwnnw sydd ar ôl erbyn hyn, sef Gerallt a Margaret. Fel gweddill y teulu fe gafodd Beti ei haddysg yn lleol ac mae'n werth nodi ei bod hi wedi bod, fel gweddill y teulu eto, yn aelod a gyfrannodd yn sylweddol i Gapel y Garn ar hyd y blynyddoedd. Ym mis Gorffennaf 1934 y cafodd ei geni ac yn y Ruel y treuliodd y blynyddoedd hyd ei phriodas â Lewis John Davies ym 1963 ac ymsefydlu yn Nhalwrn Coch, Trefenter. Wedi colli ei phriod dychwelodd i Bow Street yn 1974 ac ymsefydlu yn 8 Maes Ceiro, yng nghysgod y Ruel. Mae'n werth nodi mai tŷ cymharol newydd tua 5 oed oedd rhif 8 Maes Ceiro ar y pryd! Am yr 17 mlynedd nesaf bu'n fawr ei gofal o'i brodyr Ieuan a Dai yn y Ruel gan fynd yno'n ddyddiol i ofalu amdanynt. Yr oedd 1987 yn flwyddyn fawr yn ei hanes oherwydd dyna pryd y bu iddi gyfarfod Eric, yng Nghaffi Rheidol yn Aberystwyth yn ôl pob sôn, cyfarfod a esgorodd ar gyfnod hapusaf ei bywyd. Cyfnod a nodweddwyd gan hapusrwydd a hamdden i grwydro, yn wir cyfnod y gellir ei ddisgrifio fel cyfnod a dreuliwyd ar olwynion yn crwydro yma ac acw yn braf. Nodwedd arall o Beti oedd y ffaith ei bod hi bob amser yn drwsiadus fel pin mewn papur ac yn meddu ar iaith lafar draddodiadol gyfoethog. Bydd ystâd Maes Ceiro fel ei haelwyd yn llawer iawn tlotach a

**Croeso**

Mae'n bleser cael rhoi croeso, a gair neu ddau o sylw i rywun sydd wedi symud i Bow Street ers rhyw flwyddyn a hanner, sef Dr Ian Thompson. Mae'n ymgynghorydd meddygol sy'n arbenigo ym maes gofal yr henoed yn Ysbyty Bronglais. Cyn dod i Bow Street, roedd Ian yn byw yn Brighton ac yn ne Llundain, ond mae ei wreiddiau ym Mynytho ym Mhen Llŷn, ac yng Nghilgwri (y *Wirral*), gogledd Lloegr. Er ei fod yn ddyn prysur wrth ei waith, mae'n mwynhau hamddena trwy arddio, a chanu (mae wedi rhoi cynnig ar ganu mewn plygeiniau), ac mae ganddo ddiddordeb mewn hanes lleol. Hefyd, mae ganddo lond y tŷ o gŵn Bichon Frise! O siarad ag Ian, mae'n anodd credu ei fod wrthi'n dysgu Cymraeg, gan ei fod yn ei siarad yn rhugl a chyfforddus. "Dwi'n dysgu ar gyfer sgwrsio gyda fy nghleifion a'u teuluoedd," meddai, "a hefyd â fy mam sy'n dod o Benrhyn Llŷn." Croeso cynnes iawn iddo i'n plith!

llai lliwgar hebddi ond fe fydd y coffa amdani yn annwyl iawn gan bawb gafodd y fraint o'i hadnabod.

**Cymdeithas Lenyddol y Garn**

Gan na chawsom gyfarfod olaf o'r Gymdeithas Lenyddol, o achos fod ein gwestai Gwennan Gibbard yn yr annwyd a wedi colli ei llais, hoffwn ddiolch i bawb ymhell ac agos, ac o bob enwad, am eu ffyddlondeb yn y cyfarfodydd, ond yn bennaf rhaid diolch i Marian Beech Hughes am fod yna i mi bob amser. Elizabeth Jones

# Capel Bangor /Pen-llwyn

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Elen Ebenezer a Lee Truck ar enedigaeth Alffi Jac Evans ar 28 Mawrth.

Llongyfarchiadau i Sioned a William, Cefnllidiart ar enedigaeth eu mab, Fred James ar ddechrau mis Mawrth. Pob dymuniad da i'r teulu.

**Priodas ddiemwnt**
Llongyfarchiadau i Noel ac Eluned Scott, Teras Melindwr ar ddathlu priodas ddiemwnt ar 2 Mawrth. Pob dymuniad da ar gyfer y dyfodol.

**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau i Heulwen Lewis sydd wedi treulio cyfnod yn ysbyty Bron-glais. Gobeithio
y bydd yn teimlo'n well yn fuan iawn.

**Swyddfa'r Post**
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu Peter Edwards yn darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post o Neuadd Bentref Pen-llwyn, Capel Bangor. Diolchwn iddo am ei wasanaeth a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol.

Yn y llun gwelir Delyth Bailey, postfeistres Penparcau a fydd yn parhau i gynnig y gwasanaeth hwn. Mae'r gwasanaeth ar gael yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor rhwng



1.00 a 4.00 o'r gloch ar brynhawn Llun. Yn ogystal bydd cardiau cyfarch Cymraeg a Saesneg ar werth.

Daw Delyth yn wreiddiol o Lanfarian, ond bellach mae wedi ymgartrefu ym Mhenparcau. Fe fu'n gweithio yn y fferyllfa yn Ysbyty Bron-glais cyn newid cyfeiriad. Dymunwn yn dda iddi a gobeithio y byddwn ni'r ardalwyr yn ei chefnogi

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Mair Gwalchmai, Teras Melindwr ar farwolaeth ei chymar Julian Emery.

Bu'r ddau'n byw yng Nghapel Bangor ers sawl degawd. Ers yn ifanc iawn dangosodd Julian ddiddordeb mawr yn y ffidil a byddai'n naddu ffidilau bach solet gan ddefnyddio unrhyw ddarnau o bren y câi afael ynddynt. Yn ddiweddarach aeth ati i adeiladu gweithdy gan gynnwys mainc waith a chreodd offer addas. Fe gymerodd amser i wneud hyn ond yna dyma fe'n gwneud ei ffidil gyntaf. Gwnaeth nifer o offerynnau ar gyfer aelodau Bournemouth Sinfonietta. Bu ganddo weithdy yn Aberystwyth ac yna yng Nghapel Bangor lle byddai'n trwsio ac yn gwneud ffidilau ac offerynnau cerdd eraill. Parhaodd i weithio nes diwedd ei oes.

**Merched y Wawr Melindwr**
Braf iawn oedd gwadd aelodau cangen Bronnant atom ar ôl cyfnod o ddwy flynedd i noson Pawb a'i Farn.

Y Cyng Rhodri Davies, Sandra Morris Jones a Lowrie Jones oedd y panelwyr a Hywel Jones oedd y cadeirydd. Penderfynwyd y cwestiynau gan rai aelodau ymlaen llaw a doniol oedd un neu ddau! Cafwyd amrywiaeth o atebion i pwy fyddech chi am fod yn lifft wrth iddo dorri lawr? Houdini a

# Neuadd y Pentref Pen-llwyn yn 50 mlwydd oed

Hanner canrif yn ôl, ar ôl hir ddisgwyl, adeiladwyd neuadd newydd sbon i'r pentref, a agorwyd yn swyddogol ar Ebrill 1af 1972.

Dros gyfnod maith, sylweddolwyd yr angen am ganolfan i'r ardalwyr, ac aed ati yn y pedwardegau i ddechrau casglu arian i'r pwrpas hwn.

Cafwyd darn o dir yn rhodd gan y diweddar Major a Mrs Dafys Evans, Bronallt, a bu hyn yn sbardun i bawb i ddechrau casglu.

Cynhaliwyd ar hyd y blynyddoedd gyngherddau, dramâu, gyrfaoedd chwist, twmpathau dawns, a'r enwog "Test Concerts", a fu yn cael eu cynnal mewn amryw o lefydd, sef Y Capel, Neuadd Rhydypennau, a'r Theatr Fach Aberystwyth.

Gwrthodwyd ymhen amser cael defnyddio y capel, oherwydd yn ôl y blaenoriaid, gwelwyd. rhai o'r bechgyn ifainc, iddynt ddod a poteli diod i mewn i gefn y capel! Roedd yn golled i beidio a



chael cynnal y "Test Concert" yn lleol.

Yn 1958, er gwybodaeth diddorol gobeithio, y beirniad adrodd oedd Llwyd o'r Bryn, Llandderfel; Cerdd: Mrs Ceridwen Lloyd Davies. Arweinydd: D Alwyn Jones, Llandre. Cyfeilydd: Mrs Edna Jones Aberystwyth.

Pwy feddyliau ar ôl yr holl drefnu, yr elw oedd £26-12-6!

Cyfanswm reit dda mae'n siwr 60 mlynedd yn ôl.



Casanova i enwi rhai! Mwy anodd oedd rhai atebion ond gwnaeth pawb ymdrech da i ddweud eu barn.

Cynigwyd y diolchiadau gan Delyth Davies ac eiliwyd gan Eirwen, Llywydd Bronnant. Yna mwynhaodd pawb luniaeth arbennig cyn tynnu'r raffl. Derbyniwyd cyfraniadau hael o £50 at Apêl Hiwmaniaethyddol Wcráin DEC Cymru.




Dros y blynyddoedd, rhoddwyd gwasanaeth gwerthfawr gan swyddogion ac aelodau'r pwyllgor gwaith, a chafwyd cymorth parod gan yr ardalwyr.

Aethpwyd ati i roi y gwaith pensaer i 'r diweddar Mr Dai Lewis, Aberystwyth a'r gwaith adeiladu i'r diweddar Mr Ronnie John, Pontrhydfendigaid.

Yn 1972 bellach 'roedd y neuadd yn ffaith, a gwnaed defnydd cyson ohoni hyd heddiw, efallai mewn gwahanol ffyrdd mae'n amlwg, fel y mae'r oes wedi symud ymlaen.

Pob dymuniad da i bawb sy'n ei defnyddio, ac i'r pwyllgor presennol, fel na aed yn ofer gwaith caled y rhai hynny a fu'n ddiwyd yn codi arian i'w hadeiladu. Gweler yn y llun y diweddar Ronnie John yn cyflwyno'r goriad i'r ddiweddar Mrs Dafys Evans.



NEUADD RHYDYPENNAU
Bow Street, ger Aberystwyth

Test Concert

NOS WENER, MAI 2ail, 1958

Cadeirydd: Miss Alma Davies, Llanidloes.
Arweinydd: D. Alwyn Jones, Ysw., B.A., Llandre.


BEIRNIAID:
Cerdd: Madam Lynne Richards, Ammanford.
Adrodd: Llwyd o'r Bryn, Ysw., Llandderfel.

Cyfeilydd: Mrs. Edna Jones, Aberystwyth.

Yr Elw at Gronfa Adeiladu Neuadd y Pentref, Penllwyn, Capel Bangor

Mynediad i mewn: 3/6, 2/6: Plant 1/-.

YSGRIFENNYDD:
Miss Aeronwy Crees, Gwelfor, Penllwyn, Aberystwyth



Yr Hendre
Cefnddwysarn
Llandderfel

Annwyl Miss Crees:
[illegible]

Ynbwi(?)
Llwyd o'r Bryn

## Llythyr

Annwyl olygydd,

Nodyn i roi gwybod i'ch darllenwyr fod yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn yn Nhrawsfynydd, yn ymestyn eu cynnig i grwpiau eleni trwy roi mwy o brofiadau a theithiau tywys yn yr awyr agored.

Yn ogystal a'r teithiau tywys llawn o amgylch y ffermdy, byddwn eleni yn cynnig teithiau i grwpiau o amgylch y ffridd a phentref Trawsfynydd.

Mae'r cyfnod clo a'r cyfyngiadau dros y ddwy flynedd diwethaf wedi gwneud i ni edrych yn ehangach ar botensial yr Ysgwrn a sut y gallwn ni wneud gwell defnydd o'r gofod tu allan er mwyn rhoi darlun cyflawn o fywyd Hedd Wyn.

Fel mab fferm a bachgen ifanc, mae'n debyg y byddai wedi treulio cyfran helaeth o'i fywyd yn y ffridd neu y pentref, ac rydym yn awyddus i gynnwys yr amgylchedd ehangach y cafodd ei fagu ynddi yn ein teithiau tywys i grwpiau.

Mae ymweliad grŵp yn costio £12.50 y pen, ac yn cynnwys taith o amgylch y ffermdy, sgwrs am fywyd Hedd Wyn a phaned a chacen yn y caffi.



Os ydych chi yn awyddus i fynd ar un o'r teithiau tywys newydd, unai yn hytrach na'r daith o amgylch y ffermdy neu yn ychwanegol at hynny, mae croeso i chi gysylltu i drafod pris trwy e-bostio yr.ysgwrn@eryri.llyw.cymru.

Mi fyddwn ni hefyd yn agor i'r cyhoedd ar y 1af o Ebrill, 2022 ac mi fydd croeso i aelodau'r cyhoedd grwydro llwybrau'r ffridd am ddim, ond dim ond i grwpiau fydd y cynnig o daith dywys o amgylch y ffridd a'r pentref.

I archebu tocynnau neu am fwy o fanylion, ewch i www.yrysgwrn.com

Gan obeithio eich gweld yn yr Ysgwrn yn fuan,

**Naomi Jones**, Pennaeth Treftadaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri


# Enwau lleoedd

## Angharad Fychan

Mae fferm y *Llwyn* (SN689828) i'w gweld ar y llethr islaw'r ffordd sy'n rhedeg o Gwmerfyn i Fancydarren. Ar yr olwg gyntaf, mae'n enw digon syml: *llwyn* yn golygu 'planhigyn deiliog ac iddo dyfiant isel, clwstwr o goed' neu 'goedwig fechan'. Ond o gloddio'n ddyfnach, fe ddaw'n amlwg bod llawer mwy iddo na hynny.



*Llwyn-nant-drysni* yw'r ffurf a gofnodwyd ar ail argraffiad map chwe modfedd yr Arolwg Ordnans yn 1904, gyda'r argraffiad cyntaf yn 1887 yn rhoi *Llwyn-lan-tesni*. Mewn erthygl yn y cylchgrawn *Llais Rhyddid* 8 (1909) t.184, sonnir am '*Y Llwyn*, neu a rhoddi iddi ei henw llawn, *Llwyn Nant Tesni*'. Ceir *Llyn Llan Tesni* ar Fap Degwm plwyf Llanbadarn Fawr yn 1845 a *Llwynllantesni* ar y rhestr gyfatebol. A'r ffurf *Llwin Llan Tesne* sydd i'w gweld ar un o fapiau stad Gogerddan yn 1788:




**'A survey of Cwmbw[a] and Daran Vawr farms and such farms as adjoin … in the parish of Llanbadarn', gan Richard Davis (1788) Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru http://hdl.handle.net/10107/1445601**

Fe welwch o'r detholiad hwn o enghreifftiau fod yr enw wedi newid cryn dipyn dros amser, ond mae'n werth cofio bod tuedd i'r elfennau *(g)lan*, *llan*, a *nant* ymgyfnewid mewn enwau lleoedd.

Gellir diystyru'r ffurf â *drysni* 'llwyni drain; anialwch' yn 1904 gan mai prin iawn yw'r enghreifftiau ohoni. Er nad yw'n arferol gweld enw mor haniaethol â *tesni* 'ffawd, tynged' mewn enwau lleoedd, byddai'n hawdd bodloni ar ddehongli'r elfen olaf felly oherwydd amlder y dystiolaeth. Ond, mewn gwirionedd, rŷn ni'n dal heb gyrraedd at wraidd yr enw.

Yn Archif Melville Richards (http://www.e-gymraeg.co.uk/enwaulleoedd/amr/cronfa.aspx) codwyd yr enw *Llwyn y saynttessey* o weithred yn Llyfrgell Rydd Caerdydd sy'n perthyn i sir Aberteifi ac sydd wedi ei dyddio 1541. Awgryma'r ffurf gynnar honno mai cyfuniad sydd yma o'r elfennau *llwyn*, *y* (bannod), a *seintesau*, ffurf luosog y gair *seintes* 'sant benywaidd'. Er nad yw arwyddocâd yr enw'n glir, gellir ei gymharu â *Bron-saint* rhwng Capel Dewi a Chefn-llwyd, lluest *Dôl-y-sant* heb fod ymhell o Blasymynydd, a *Chapel Santesau* yn Llanwenog.

Dyma enghraifft arall, felly, lle mae llawer mwy i enw lle nag sy'n ymddangos ar yr wyneb.

Paratowyd dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

# Ymateb i heriau cymhleth ein byd

**Wythnos Cymorth Cristnogol 2022**

Mae heriau ein byd yn aml a dyrys. O ryfel yn Wcráin, newyn yn Affganistan ac effeithiau'r argyfwng hinsawdd trwy'r byd i gyd, byddai'n hawdd troi'n fewnblyg a digalonni. Ond yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol (15-21 Mai) mae cyfle i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau hyn. Trwy roi, gweithredu a gweddïo, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn.

Mae'r gwrthdaro yn Wcráin wedi mynd a sylw'r byd dros y misoedd diwethaf. Un canlyniad i'r ymladd yno yw bod prisiau grawn wedi codi, gan fod Wcráin yn wlad sy'n cynhyrchu cymaint o rawn ar gyfer y byd.

Wrth gwrs, bydd y gwledydd cyfoethog yn gallu ymdopi gyda'r prisiau uwch, ond i'r gwledydd tlawd mae'n fater gwahanol. Mae gwlad fel Zimbabwe, er enghraifft, eisoes yn ei chael hi'n anodd cynhyrchu eu bwyd eu hunain oherwydd y newid yn yr hinsawdd a bydd prisiau uwch yn ychwanegu at yr argyfwng.

Zimbabwe gaiff sylw Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn gweithio yno er mwyn eu helpu i addasu eu dulliau amaethyddol. Mae Janet Zirugo (yn y llun) yn fam-gu 70 oed ac wedi gweld ei bywyd yn cael ei drawsnewid gan y technegau newydd.

Un peth yn benodol sydd wedi ei helpu yw'r hadau newydd y mae'n eu defnyddio erbyn hyn. Mae'r hadau hyn yn wydn iawn mewn cyfnodau sych a thrwy eu defnyddio gall Janet sicrhau cnydau da ar gyfer ei theulu. Mae wedi gallu troi ei thir sych a llychlyd yn ardd llawn llysiau lliwgar.

Dyma'r hyn y mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn gallu ei gyflawni. Mae'r arian yr ydych yn ei godi yn holl bwysig yng ngwaith y mudiad o amgylch y byd.


Bydd pob math o weithgareddau'n digwydd ledled Cymru o

# Myfyrdod y Pasg

I ni fel teulu, bu'r wythnosau diwethaf yn gyfnod galar, wedi i ni golli Mam. Yn wir, bu'r ddwy flynedd ddiwethaf yn gyfnod galar i lawer o deuluoedd a gollodd anwyliaid yn ystod y pandemig. Mae hi fel pe bai cymdeithas gyfan wedi cyd-deithio drwy rhyw ddyffryn tywyll du. Ac ar ben popeth, dros yr wythnosau diwethaf, daeth y darluniau o ddioddefaint erchyll a galar dwys yn yr Wcrain.

Mae'r Pasg yn ŵyl o lawenydd a dathlu, ond cyn y gorfoledd, mae realiti poen a dioddefaint. Gwag yw unrhyw ffydd sydd ond yn rhoi sylw i lawenydd, buddugoliaeth a gobaith, heb gydnabod poen a dioddefaint.

Pan gafodd Sri Lanka ei tharo gan y Tsunami ar ddiwedd 2004, bu dinistr a dioddefaint ar raddfa fawr. Mewn ymateb i hynny fe gyflwynodd eglwysi yn Sri Lanka y ddefod o alarnadu. Roedd hwn yn gyfle i bobl roi mynegiant i'w gofid a'u galar, i gydnabod ei fod yn real, ac i dderbyn cysur a gwir gydymdeimlad.



Beth yw galarnad? Cri y cyfiawn sy'n wynebu caledi er gwaethaf eu ffyddlondeb. Mae'n swnio rhywbeth yn debyg i hyn: 'Arglwydd, mae poen arna i, ac Arglwydd, mae pawb arall yn chwerthin arna i, ac Arglwydd, dwyt ti ddim yn helpu llawer chwaith, ac am ba hyd y bydd hyn yn parhau?'

Mae'r beibl yn rhoi lle amlwg i alarnad. Galarnadau yw o leiaf traean o'r salmau, yn galw allan ar Dduw i dosturio a thrugarhau. Pan ddaw Iesu i Jerwsalem a gweld anobaith y bobl, mae o'n wylo dros y ddinas.

Darlun mwyaf dirdynnol y Pasg yw gweld Iesu ar y groes, a'r hoelion drwy ei draed a'i ddwylo, yn ddi-euog, yn cael ei groeshoelio ar gam.

Ond wedi'r dioddefaint, daeth buddugoliaeth. Roedd y bedd yn wag, ac atgyfododd Crist, wedi iddo gymryd ein pechod a'n poen ni arno ef ei hun. Drwy ei ddioddefaint ef, mae'r ffordd yn agored i ni i gael bywyd tragwyddol.

Ni fyddai llawenydd Sul y Pasg heb wewyr Gwener y Groglith. Cyn profi gwir lawenydd, efallai fod angen i ni brofi'r tywyllwch yn gyntaf. Ac â ninnau wedi mynd drwy ochenaid a gwewyr, gallwn sefyll ochr yn ochr ag eraill a chyd-alaru a chyd-ochneidio.

Yn ddiweddar fe gollon ni'r Archesgob Desmond Tutu, a phwy well nag ef i ddarlunio'r hyn dw i'n ceisio ei fynegi. Yn y gwrandawiadau cyfiawnder a chymod yn Ne Affrica, byddai'n wylo'n hidl wrth wrando ar hanesion dirdynnol apartheid. Ond fe gofiwn Tutu hefyd am ei chwerthiniad iach, a'i allu i wneud i bobl eraill i chwerthin.

Y ddau beth yma, yr wylo a'r chwerthin, y galarnadu ar dathlu, mae nhw'n rhan o'n profiad fel pobl, ac yn rhan o'n pererindod wrth i ni ddathlu Crist fel dyn a Duw y Pasg hwn. Pasg hapus i chi.

**Siôn Meredith**

## Trefeurig

**Enwebu am wobr cyfryngau Celtaidd**

Dymuniadau gorau i raglen radio Linda Griffiths a enwebwyd am un o wobrau yr Ŵyl Cyfryngau Celtaidd yn y categori Rhaglen Gerddoriaeth Radio. Cynhelir yr Ŵyl eleni yn Quimper, Llydaw rhwng 7 i 9 Mehefin.

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

amgylch cyfnod yr Wythnos, yn cynnwys nifer o unigolion a grwpiau sy am gyflawni her y 300,000 cam trwy fis Mai. Mae'r her hon wedi cydio yn nychymyg llawer ers iddi gael ei threialu dwy flynedd yn ôl.

Un person sy am gyflawni'r her hon ydi'r Parchedig Andrew Sully o Landudno. Mae wedi gosod nod sylweddol iawn iddo'i hun - sef cerdded o'r Waen i Gaernarfon gan gysylltu pob un o gestyll y gogledd ar y ffordd, 22 ohonynt. Bydd wedi cerdded mwy na 300,000 cam erbyn diwedd mis Mai heb os!

Os yw ymdrech Andrew yn eich ysbrydoli, beth am drefnu eich taith eich hun yn lleol? Cewch fwy o wybodaeth ar ein gwefan caid.org.uk neu trwy ffonio ein swyddfa yng Nghaerdydd ar 029 2084 4646 neu trwy e-bostio cymru@cymorth-cristnogol.org <mailto:cymru@cymorth-cristnogol.org>

Mae problemau'n byd yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiol, ond trwy sefyll mewn undod gyda'n brodyr a'n chwiorydd, gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i fywyd nifer.



# Ysgol **Rhydypennau**

**Llangrannog**
Ar fore Mercher y 9ed o Fawrth, fe deithiodd 37 o blant blwyddyn 3 a 4 i wersyll yr Urdd, Llangrannog am ddau ddiwrnod o ddifyrrwch. Yn ystod y cymdeithasu a'r hwyl, bu'r plant yn brysur iawn yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol gan gynnwys gwibgartio, saethyddiaeth a nofio. Braf oedd gweld y plant yn cael y cyfle i ailgydio mewn profiadau preswyl unwaith eto ar ôl cyfnod mor ansicr yn ddiweddar.

**Gorchest**!
Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd yn ddiweddar. Diolch o waelod calon i bob un plentyn a fu wrthi yn brysur yn dysgu geiriau ac yn ymarfer pob amser chwarae/cinio ar gyfer cystadlu boed yn unigol neu mewn parti.

Llongyfarchiadau i bob un a fu wrthi yn cystadlu yn unigol ar Unawdau, Cerdd Dant ac Alaw Werin. Cafwyd perfformiadau arbennig gan Lilah Smith (bl. 4) a Mirain Evans (bl. 5) yn eu cystadlaethau unigol. Llwyddodd Lili Myrddin i gael yr ail wobr ar yr Alaw Werin bl. 6 ac iau ac ail ar yr Unawd Cerdd Dant bl. 5 a 6-da iawn ti! Daeth Leisi Myrddin i'r brig yn yr Unawd Cerdd Dant bl. 3 a 4 ac felly ymlaen â hi i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych-llongyfarchiadau mawr!

Bu'r partïon wrthi yn brysur yn ogystal. Perfformiad ardderchog gan y Parti Llefaru. Cafodd y Parti Unsain yr ail wobr a'r Parti Cerdd Dant y wobr gyntaf.

Profwyd llwyddiant hefyd wrth i dri dawnus iawn blesio'r beirniaid yn Eisteddfod Cardi Iaith yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Idris o'r dosbarth derbyn (creu jôc); Ruby, blwyddyn 4 (ffotograffiaeth) a Mirain, blwyddyn 5 (am addurno ei hun!). Campus!






**Ymweliadau**
Ar Ddydd Mawrth 15fed o Fawrth bu Blwyddyn 2 yn ddigon ffodus i gael ymweliad gan Bethan o'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Bu Bethan yn siarad gyda'r plant am waith y gweithwyr, fe ddarllenodd hi stori am Sbarc y Ddraig a thrafodwyd hefyd bwysigrwydd sicrhau fod larwm mwg ar bob llawr yn ein cartrefi. Diolch yn fawr i Bethan am ddod atom - roedd hi'n braf croesawu ymwelwyr yn ôl i'r dosbarth unwaith eto!

Aeth plant y dosbarth Derbyn i'r dre yn ddiweddar er mwyn ymweld â'r Llyfrgell. Yn ogystal a phori drwy'r holl lyfrau, cafodd y plant gyfle i wrando ar bump stori ac actio darnau o'r straeon hefyd. Diolch yn fawr i Mrs Delyth Huws, Llyfrgell y Dre am gynnal y sesiwn.

Ar yr 16eg o Fawrth, fel rhan o 'Wythnos Gwyddoniaeth', cafodd blwyddyn 5 gyfle i fwynhau pnawn yn y Brifysgol yn arbrofi ac yn ymchwilio i lwyth o agweddau gwyddonol. Sesiwn ddifyr iawn!

**Ardal allanol blwyddyn 1 a 2**
Diolch o galon i 'D A Evans Excavation & building work' am osod concrit yn yr ardal allanol o flaen yr ysgol.

A diolch hefyd i'r rhieni fuodd ynghlwm a'r gwaith i adeiladu adnoddau newydd ar gyfer yr ardal; rydym yn gwerthfawrogi eich gwaith yn fawr!









Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:
**http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk**
@YGRhydypennau – dilynwch ni ar drydar.

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

**Ysgol y Goedwig**
Dros yr wythnosau diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i drawsnewid darn o dir diflas i fod yn un bywiog a chyffrous i'r plant. Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael cydweithrediad nifer o bobl i ddatblygu'r ardal gan gynnwys rhieni a ffrindiau'r ysgol. Diolch arbennig i Cath a Jenny am arwain yr ysgol gyda'r gwaith yma, ond diolch yn fawr i rieni am eu cefnogaeth i'r fenter – mae pethau'n siapio'n dda iawn!

**Ysgol Iach**
Mae wedi bod yn fis prysur iawn o gadw'n heini yn yr ysgol. Yn ogystal â'r beicio a'r sgwtera arferol ar ddydd Mercher, cafodd Anthony a Leo, ein Llysgenhadon Efydd hyfforddiant gwych gan Stefano ac fe ddechreuodd y ddau drefnu gweithgareddau bywiog i weddill yr ysgol yn syth. Da iawn chi – roedd pawb wedi mwynhau'r gemau newydd yn fawr iawn.

Bu Stefano'n rhoi gweithdy i'r plant ifancaf ar sut i ddefnyddio'r beiciau gwthio hefyd. Gwych! Diolch Stefano.

**Ysgol Eco**
Mae'r ysgol yn falch o'r pwyslais sydd gennym ar ddysgu elfennau o gynaliadwyaeth ac ailgylchu i'r plant. Yn ystod y mis, bu plant Cyfnod Allweddol 2 yn cerdded o gwmpas y pentref yn codi sbwriel, Yn ôl yn y dosbarth, bu'r plant yn dosbarthu'r sbwriel i wahanol gategorïau. Plastig oedd y sbwriel mwyaf cyffredin a wedyn papur a chaniau alwminiwm. Roedd yn siom i'r plant weld fod cymaint o sbwriel oedd ar y llawr yn gallu cael ei ailgylchu'n hawdd. Roedd yn siom hefyd i weld cymaint o fygydau un-defnydd mor gyffredin ar y pafin ac mewn cloddiau.

Ar yr ochr arall, mae'r ysgol wedi bod yn casglu pecynnau creision yn ddiweddar ac yn ail-ddefnyddio'r pecynnau i greu bagiau. Mae'r cynnyrch gorffenedig yn edrych yn drawiadol iawn – da iawn chi i gyd.

**Ffair Wyddoniaeth**
Mae ymweld â'r Ffair Wyddoniaeth yn y Brifysgol yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i blant hynaf yr ysgol. Mae'n ffordd ymarferol a hwyliog o ddysgu am wahanol agweddau o wyddoniaeth ac mae'r plant yn dychwelyd bob blwyddyn wedi eu hysbrydoli gan y gweithgareddau. Diolch yn fawr i staff y Brifysgol am drefnu'r digwyddiad, roedd pawb wedi mwynhau.
















# Ysgol **Pen-llwyn**

**Taith Llangrannog**
Aeth disgyblion Blwyddyn 3 a 4 am daith dros nos i Wersyll Urdd Gobaith Cymru, Llangrannog. Roedd hyn yn gyfle unigryw ac roedd y plant yn hynod gyffrous i gael mynd i ffwrdd am drip preswyl wedi cyfnod mor hir heb gael y cyfleoedd. Gwnaeth y plant fwynhau holl arlwy ac amrywiaeth eang o weithgareddau yn Llangrannog, yn cynnwys merlota, beiciau cwad, nofio, crefftau coedwig a wal ddringo.

**Apêl Wcráin**
Cynhaliodd yr ysgol Ddiwrnod Glas a Melyn i ddangos cefnogaeth i drigolion yr Wcráin a'r rhai sydd wedi gorfod dianc o'r wlad fel canlyniad i'r rhyfel. Roedd yn ddiwrnod lliwgar a llawn hwyl, a llwyddodd yr ysgol i godi swm sylweddol o £338. Diolch i rieni a chefnogwyr yr ysgol am eu haelioni.

**Clwb yr Urdd**
Mae Clwb yr Urdd wedi bod yn brysur yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r plant wedi mwynhau creu campweithiau digidol ar gyfer cystadlaethau TGCH Urdd Gobaith Cymru ac yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau yn ymwneud â thymor y Gwanwyn a'r Pasg. Cafwyd ymweliad go arbennig gan y bwni Pasg yn ystod clwb ola'r tymor. Tybed allwch ddyfalu gwir hunaniaeth y bwni o'r lluniau?

**Goliau Pêl Rwyd Newydd**
Carem ni yn Ysgol Pen-llwyn ddiolch o galon i Gyngor Cymuned Melindwr am y rhodd hael o bâr o goliau pêl rwyd newydd i'r ysgol. Mae'r plant wrth eu boddau yn saethu goliau ac yn ymarfer eu sgiliau pêl rwyd. Diolch am eich cefnogaeth a'ch haelioni, fel arfer!

**Cyfnod Sylfaen**
Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur iawn yn dysgu pob math o bethau yn ystod y tymor. Maent wedi cael blas ar wrando ar stori Jac a'r Goeden Ffa ac wedi creu cyflwyniad ar y cyfrifiadur amdano. Maent wedi dysgu am Gestyll a Dreigiau ac wedi gwneud amrywiaeth o weithgareddau Pasg.

**Strolio a Rholio**
Wythnos diwethaf roedd yn wythnos Strolio a Rholio. Roedd hyn yn gyfle i'r plant ddod â'u beics neu sgwteri i'r ysgol. Cafwyd amrywiaeth o sesiynau beicio wedi eu cynnal gan yr athrawon a hefyd gan y Llysgenhadol Efydd, sef Manon ac Isabel. Mae sgiliau beicio a rholio'r plant yn gwella. Sgiliau pwysig iawn i ddysgu!

**Noson Agored**
Cynhaliwyd Noson Agored ar nos Lun 28 Mawrth. Roedd hyn yn noson anffurfiol ble y gwahoddwyd rhieni i ddod i'r ysgol i edrych trwy lyfrau plant, gweld gwaith ac arddangosfeydd a mwynhau clonc a phaned. Dyma gyfle gwerth chweil i rannu beth sydd yn digwydd yn yr ysgol gyda rhieni ac roedd mor braf cael rhieni yn ôl ar dir yr ysgol.

**Miss Roberts**
Rydyn ni yn ffodus iawn i fod wedi cael croesawu Miss Roberts i ddosbarth Cyfnod Sylfaen ar leoliad o'r brifysgol fel myfyrwraig wrth iddi hyfforddi i fod yn athrawes. Mae'r plant yn cael llawer o hwyl yn ei chwmni ac mae hi'n gymeriad hyfryd i gael fel rhan o deulu Pen-llwyn. Gobeithio y bydd ei hamser ym Mhen-llwyn yn brofiad adeiladol i Miss Roberts ac y bydd yn gymorth iddi wrth iddi gychwyn ar ei thaith ym myd addysg. Croeso Miss Roberts!

Pob dymuniad da i holl ddarllenwyr y Tincer ar drothwy gwyliau Pasg. Edrychwn ymlaen at dymor Gwanwyn llawn gobaith a gweithgaredd a chofiwn;

*Daw hyfryd fis Mehefin cyn bo hir,*
*A chlywir cân y gwcw'n canu'n*
*braf yn ein tir.*











# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Coedwig Gogerddan**
Cafwyd diwrnod ardderchog yng Nghoediwg Gogerddan wrth i ni gychwyn ar bennod newydd yn ein dysgu sef dŵr! Cynhaliwyd arbrofion gwyddonol wrth i'r disgyblion hidlo dŵr o'r afon tan ei bod yn bur. Aethom ati i luniadu'r bont gan ddefnyddio dyfrliw a chyfansoddwyd Haicw a cherddi byr gan ddefnyddio ein synhwyrau o gwmpas y goedwig.

Roedd hi'n braf cael cerdded yna ac wrth gwrs cael joio allan yn yr awyr iach!

**Dydd Gwyl Dewi/Diwrnod y llyfr**
Eleni eto braf oedd gweld disgyblion wedi gwisgo yn ein gwisg draddodiadol-cafwyd gweithgareddau amrywiol yn ystod y ddau diwrnod. Ar ddiwrnod y llyfr trefnwyd sêl llyfrau gan y Cyngor Ysgol – diolch i bob teulu am roi hen lyfrau i'r achos. Codwyd tua £40 at achos Wcrain.

**Thom Morgan – dylunio I'r cwricwlwm I Gymru**
Wrth gamu a dysgu mwy am ein Cwricwlwm Newydd cawsom brynhawn penigamp gyda ein gweithgor 'Pen-nôd'- gweithgor Newydd sydd yn edrych ar feysydd newydd y Cwricwlwm – mae disgyblion, staff a llywodraethwr yn rhan o'r gweithgor a braf oedd cael arweiniad Thom Morgan (Siop Inc) wrth i'r disgyblion dylunio delweddau i'r 4 diben newydd sydd yn arwain y cwricwlwm. Rydyn yn disgwyl ymlaen i weld beth fydd Thom wedi ei ddylunio allan o syniadau'r gweithgor!

**Diwrnod Glas a Melyn Cefnogi Wcráin**
Yn sgil trychineb Wcráin penderfynodd y Cyngor Ysgol drefnu diwrnod o wisgo glas a melyn. Diolch i chi gyd am godi £387.14 i'r achos. Diolch o galon i Mrs. Sara Gibson a ddaeth mewn i siarad am ei phrofiad o gwrdd ag Amelia Anisovych, y ferch fach 7 oed o'r Wcráin a ganodd 'Let it go' ac Anthem Genedlaethol ei gwlad yng Nghanolfan y Celfyddydau fel rhan o noson ffeinal Côr Cymru. Merch ddewr sy'n obaith mawr i'w chyd-ddyn. Mrs. Gibson oedd yn edrych ar ei hôl a'i chyfweld ar gyfer y cyfryngau. Braint oedd cael gweld y lluniau a rhan o'i chyfweliad yn ogystal a gwrando ar ei llais swynol. Pob hwyl a bendith i Ameilia.



**Wythnos Stroliwch a Roliwch**
Mwynhaodd y disgyblion ddod â'i beiciau, sgwterau a cherdded i'r ysgol, pawb yn ei dro, yn ystod yr wythnos fel rhan o ymgyrch SUSTRANS i hybu teithiau iach i'r ysgol. Diolch i'r Llysgenhadon Efydd am drefnu gweithgareddau amrywiol iddynt yn ystod yr wythnos – rhywbeth at ddant pawb!

**Bl 3 a 4 Ymweliad Llangrannog**
Ar ôl llawer o aros fe aethom i Langrannog am ddau diwrnod ac am brofiad a hanner! Cafwyd siwrnau ar fws-rhywbeth nad ydyn ni wedi medru gwneud ers sawl blwyddyn! Cafwyd croeso hyfryd gyda'r staff ac roedd pob disgybl yn teimlo'n gartrefol iawn yna! Roedd llawer o adnewyddu ar y safle ac mae'r dyfodol yn edrych yn gyffrous iawn i'r gwersyll. Er y newidiadau cawsom pob profiad posib… marchogaeth, trampolin, beiciau modur, nofio ayyb. Cawsom bwyd bendigedig dros y ddau diwrnod ac roedd pawb wrth eu boddau!

**Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd**
Bydd yr Ensemble lleisiol yn mynd ymlaen i Ddinbych – criw o fechgyn fydd yn mentro i'r llwyfan – pob lwc iddyn nhw!













# Tasg y Tincer


Dyna hyfryd oedd derbyn eich lluniau drwy'r post – roedd pob tusw o flodau'n ddigon o sioe! Diolch arbennig i chi oedd wedi anfon llun am y tro cyntaf. Daliwch ati! Diolch i: Ela Jên Lewis, Capel Bangor; Leif, Penrhyn-coch; Anwen Ingram, Capel Bangor; Math Gruffudd Davies, Cefn-llwyd; Evan Griffiths, Bow Street; Ania Wyn Hughes, Penrhyn-coch.



Anwen

Dy lun di, Anwen, ddaeth o'r het yn gyntaf tro 'ma. Llongyfarchiadau mawr i ti!

Gobeithio eich bod yn mwynhau eich gwyliau Pasg ac yn cael cyfle i wneud pethau difyr – chwarae pêl-droed, mynd am dro, padlo yn y môr, mynd ar y beic, cael picnic, coginio, garddio, darllen, lliwio ... mae digon o ddewis! Falle y byddwch yn mynd ar helfa wyau Pasg neu'n derbyn wy siocled mawr. Mmmm! Mae'r wy yn arwydd o fywyd newydd ac o obaith. Bydd rhai ohonon ni'n cael cwningen siocled. Un o ffrindiau gorau Eostre, duwies y gwanwyn, ganrifoedd maith yn ôl, oedd sgwarnog, ac mae'n bosib mai dyna'r cysylltiad rhwng y gwningen a'r Pasg. Mae gan Gymru santes oedd yn ffrind â sgwarnog – Melangell. Achubodd Melangell y sgwarnog rhag cŵn hela ffyrnig Brochwel, tywysog Powys. Beth am fynd i eglwys Pennant Melangell ger Llanfyllin i weld lle gafodd Melangell ei chladdu?



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

Y mis hwn, rhowch gynnig ar liwio llun y fasged yn llawn wyau. Tybed ai wyau siocled ydyn nhw! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Calan Mai (1 Mai). Pasg hapus, a hwyl am y tro!

ISSN 0963-925X

Rhif 448 | Ebrill 2022